Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

Ionawr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

Ionawr 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS ***
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

* Datganodd Carolyn Thomas fuddiant perthnasol yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae hi wedi arwain prosiect ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bioamrywiaeth. Roedd y prosiect, “It’s For Them”, yn cynnwys gweithio gyda llywodraeth leol, cynghorau cymuned, ysgolion a gwirfoddolwyr ar reoli ymylon a glaswellt amwynder. Mae Carolyn Thomas wedi parhau i gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill sy’n ymwneud â’r prosiect ar sail dros dro.

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **7**

**Argymhellion** ........ **9**

**1. Cyflwyniad** ........ **9**

Ein hymchwiliad ........ 14

Cylch Gorchwyl ........ 14

Ein dull ni ........ 14

**2. Fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol ar gyfer cefnogi natur** ........ **16**

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ........ 16

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 17

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru ........ 17

Tystiolaeth gan gyfranwyr ........ 18

Deddf 2016 ........ 19

Alinio ag ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig ........ 19

Dyletswydd adran 6 ........ 20

Cynllun Gweithredu Adfer Natur ........ 21

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ........ 21

Ein barn ni ........ 22

Argymhellion ........ 25

**3. Fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer adferiad byd natur** ........ **28**

Y 'Fframwaith Adfer Natur' ........ 28

Tystiolaeth gan gyfranwyr ........ 29

'Targed pennawd' ........ 29

Targedau bioamrywiaeth ........ 30

Amserlen ar gyfer gosod targedau ... 31

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ... 31

Ein barn ni ... 32

Argymhellion ... 34

**4. Cynnydd tuag at 30 erbyn 30 ... 36**

Beth yw 30 erbyn 30? ... 36

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth - cam cyntaf ... 36

Tystiolaeth gan gyfranwyr ... 37

Gweithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn ... 37

Beth sy'n cyfrif tuag at 30 erbyn 30? ... 38

Y sefyllfa bresennol yng Nghymru ... 38

Monitro cyflwr safleoedd ... 39

Rheoli safleoedd gwarchodedig yn effeithiol ... 40

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ... 40

Ein barn ni ... 42

Argymhellion ... 43

**5. Ardaloedd morol ac arfordirol ... 45**

Cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ... 45

Monitro morol a data ... 46

Adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ... 46

Cynllunio morol ... 47

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ... 47

Ein barn ni ... 48

**6. Buddsoddi mewn natur ... 50**

Tystiolaeth gan gyfranwyr ... 50

Deall yr angen am fuddsoddiad a chynyddu cyllid cyhoeddus ... 50

Y dull ariannu presennol ..... 51

Grantiau mawr ar gyfer gweithredu ar raddfa tirwedd ..... 52

Ariannu ffermio natur-gyfeillgar ..... 53

Galluogi buddsoddi preifat mewn adferiad byd natur ..... 54

Cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 55

Ein barn ni ..... 58

Argymhellion ..... 60

**Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 62**

**Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 64**

Gwybodaeth ychwanegol ..... 65

# Rhagair y Cadeirydd

O'r aer rydym yn ei anadlu, i'r dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta, mae natur yn rhan hanfodol o'n bywydau. Gall gyfrannu at ein hiechyd a'n llesiant, ac mae'n arf pwysig ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd. Ac wrth gwrs, mae ganddi werth cynhenid. Ond ers degawdau, rydym wedi cymryd natur yn ganiataol - llygredd, trefoli, a gorfanteisio ar y tir a'r môr - heb sôn am effaith newid hinsawdd ar ben hynny. Nawr, mae byd natur yn wynebu trafferthion difrifol.

Mae natur Cymru yn diflannu ar raddfa frawychus. Mae'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr byd natur yng Nghymru (2023) yn manylu ar raddfa ddinistriol colledion byd natur ar draws y wlad – mae bywyd gwyllt Cymru wedi gostwng 20% ar gyfartaledd ers 1994 ac mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i achub byd natur?

Ynghyd â llywodraethau eraill ledled y byd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Mae hyn yn golygu diogelu ac i bob pwrpas reoli 30% o'n tir a'n môr er lles byd natur erbyn 2030 (a elwir yn '30 erbyn 30'), ymhlith pethau eraill. O ystyried cyflwr presennol byd natur yng Nghymru, bydd cyflawni'r ymrwymiad hwn yn her aruthrol.

Mae ein hadroddiad yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r her, yn enwedig '30 erbyn 30'. Ein prif neges yw ei bod yn ddigon hawdd gwneud ymrwymiadau, ond bod angen dilyn hyn gyda chynllun clir a chamau gweithredu, ac mae angen eu cefnogi gyda buddsoddiad priodol. Mae diffygion ym mhob un o'r meysydd hyn ar hyn o bryd. Mae'r diffyg cyffredinol o ran capasiti ac adnoddau yn peri pryder, ac yn ôl pob golwg mae diffyg brys ar ran Llywodraeth Cymru i fynd â'r maen i'r wal. Mae llawer o'n hargymhellion yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn cyflawni addewidion y mae eisoes wedi'u gwneud ond y mae'n cymryd oes i'w cyflawni – Polisi Adnoddau Naturiol newydd, Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig, cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, targedau adfer natur uchelgeisiol sy'n gyfreithiol rwymol. Mae'r rhestr yn mynd ymlaen.

Prin yw'r amser sy'n weddill i ddod â natur yn ôl o'r dibyn, ac mae'r amser hwnnw'n crebachu - yn gyflym. Os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei hymrwymiadau ar gyfer byd natur mae angen iddi fwrw ati o ddifri, oherwydd ni all byd natur aros iddi ddal i fyny.

Yn olaf, er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig pwysleisio bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae i achub natur Cymru. Mae ymrwymiadau a thargedau natur y llywodraeth yn ddiystyr heb y camau gweithredu, ac yn bwysicaf oll, y bobl sy'n eu cyflawni.

O greu gofodau ar gyfer byd natur yn ein gerddi ac ar draws ein cymunedau, a mabwysiadu arferion torri gwair sy'n gyfeillgar i natur – mae'r pethau hyn i gyd yn bwysig yn y frwydr yn erbyn colled byd natur.

Drwy ddechrau'n fach, gallwn gyflawni newid sylweddol fel ein bod nid yn unig yn atal colled byd natur ond yn dechrau ei wrthdroi. Gall pob un ohonom chwarae ein rhan yn y daith tuag at Gymru sy'n gadarnhaol o ran natur.



**Llyr Gruffydd AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau bod yr amcan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cynnwys cyfeiriad penodol at adfer bioamrywiaeth. ........................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil sydd ar ddod ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 9(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredinol. ........................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol;
- ymrwymo i gwblhau adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor; a
- sicrhau bod y Polisi Adnoddau Naturiol yn gallu ysgogi gweithredu ar gyfer byd natur ar draws y llywodraeth gyfan, gyda pholisïau integredig sy'n cyd-fynd â thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030 a nodau ehangach. ........................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, adolygu effeithiolrwydd y broses o weithredu Datganiadau Ardal. Dylai'r adroddiad:

- ystyried a yw Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol a sut maent yn cael ei defnyddio ar gyfer hynny,
- ceisio nodi unrhyw rwystrau posibl i weithredu effeithiol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei chanfyddiadau â'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. ........................................................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau gwerthusiad OB3 Research o'r broses o weithredu'r ddyletswydd adran 6 ac egluro pa gamau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i'r canfyddiadau hynny..............................Tudalen 26

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- ddiweddaru'r canllawiau dyletswydd adran 6 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n ddigonol y newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig,
- gosod disgwyliad i awdurdodau cyhoeddus adolygu eu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yng ngoleuni'r canllawiau diwygiedig. ..........................................Tudalen 26

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gryfhau trefniadau goruchwyliaeth ac atebolrwydd..........................................Tudalen 26

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig;
- ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu diwygiedig o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor;
- sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn glir, yn uchelgeisiol, yn fanwl ac yn cyd-fynd â thargedau a nodau ehangach Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030. ..........................................Tudalen 26

**Argymhelliad 9.** Dylid costio Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon gwneud hyn, dylai o leiaf sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cynnwys camau gweithredu tymor byr strategol wedi'u costio.......... ............Tudalen 27

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys 'targed pennawd' yn y Bil sydd ar ddod, wedi'i alinio ag ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad erbyn 2050. ..........................................Tudalen 34

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu manylion y gwaith y mae wedi'i wneud ers mis Mawrth 2023 i gwmpasu targedau priodol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gyngor arbenigol a geisiwyd ac unrhyw waith ymgysylltu â rhanddeiliaid. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y bydd wedi cymryd chwe blynedd i ddatblygu targedau yng Nghymru ac a yw hynny'n dderbyniol, o ystyried bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 13.** Yng ngoleuni'r oedi sylweddol o ran datblygu targedau, ac o ystyried bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau a ddyrennir i adrannau sy'n ymdrin â'r maes polisi hwn gyda'r nod o fodloni ei hun bod y rhain yn ddigonol. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- dechrau rhaglen o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar unwaith gyda'r bwriad o benderfynu pa dargedau bioamrywiaeth y dylid eu datblygu fel blaenoriaeth,
- gwneud darpariaeth yn y Bil i'r 'targedau blaenoriaeth' hyn gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol,
- gwneud darpariaeth yn y Bil i'r targedau sy'n weddill gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio eto i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed 30 erbyn 30. Dylai hyn ei gwneud yn glir y dylid monitro safleoedd gwarchodedig i nodi llinellau sylfaen ac asesu cynnydd, y dylent fod â chynllun rheoli, ac y dylent fod mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella er mwyn cyfrif tuag at y targed. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw at ei haddewid i lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targed 30 erbyn 30. Dylai'r cynllun gweithredu wneud y canlynol:

- ymgorffori argymhellion a gododd o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a'i weithgorau arbenigol cysylltiedig, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob cam gweithredu, gydag amserlenni disgwyliedig ar gyfer eu cyflawni,
- cynnwys cerrig milltir allweddol tuag at gyrraedd y targed..........Tudalen 43

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth lunio'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 i helpu i feithrin y dull 'Tîm Cymru' sydd ei angen i gyrraedd y targed a chyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth domestig a byd-eang ehangach. .......................................................Tudalen 43

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 a'r targed 30 erbyn 30. .......................................................Tudalen 44

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r camau nesaf a gymerir mewn perthynas â'r broses ymgynghori a dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Dylai hyn gynnwys amserlen ar gyfer penodi contractwr, manylion ynghylch pa mor fuan ar ôl penodi contractwr y cynhelir yr ymgynghoriad, a manylion am y camau nesaf yn y broses ddynodi. .......................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cefnogi gan fframweithiau rheoli cadarn, sy'n mynd i'r afael â phwysau allweddol fel gweithgareddau pysgota, datblygiadau alltraeth, ac effeithiau dynol eraill. ...................................Tudalen 49

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad o ddigonolrwydd rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ar gyfer rhywogaethau symudol, gan gynnwys adar môr, a dylai'r canfyddiadau gael eu hadlewyrchu mewn cynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol a strategaethau morol. .......................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol a darparu adnoddau fel y gellir bwrw ymlaen i'w weithredu, yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. .................Tudalen 49

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morfa heli ar hyd arfordir Cymru. .......................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyllid byd natur. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru asesu a nodi maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer adferiad byd natur yng Nghymru, gan ymgorffori canfyddiadau o adroddiadau fel "Llwybrau i 2030" Cyswllt Amgylchedd Cymru. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiadau 2025 o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn mynd i'r afael â rhwystrau i effeithiolrwydd, gan ganolbwyntio ar welliannau mesuradwy o ran bioamrywiaeth. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chynlluniau ar gyfer rhaglen ariannu Rhwydweithiau Natur ar ôl iddi ddod i ben yn 2025. Os nad yw'r rhaglen yn mynd i barhau, neu os bydd y dyraniad cyllideb yn lleihau, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu dadansoddiad o oblygiadau penderfyniadau o'r fath. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys metrigau clir a fframwaith monitro i olrhain cynnydd tuag at dargedau adfer bioamrywiaeth. .......... Tudalen 61

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni ei hymrwymiad, yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, i "archwilio dulliau o ddefnyddio arian preifat i ategu arian cyhoeddus drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy". .......... Tudalen 61

**Argymhelliad 30.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wella cydweithio ar draws adrannau i integreiddio adferiad byd natur i feysydd polisi ehangach, er mwyn sicrhau ymateb llywodraeth gyfan i'r argyfwng natur. .......... Tudalen 61

# 1. Cyflwyniad

**1.** Yng Nghynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth (COP15) ym mis Rhagfyr 2022, ymunodd Llywodraeth y DU â'r ymrwymiad byd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, a chyflawni adferiad erbyn 2050. Gelwir hyn yn 'Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal'.

**2.** Mae'r Fframwaith yn cynnwys 23 o dargedau ar gyfer gweithredu brys hyd at 2030. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r fframwaith ar ran y DU. Mae disgwyl i Gymru chwarae ei rhan o ran gweithredu'r Fframwaith a chyflawni'r targedau.

**3.** Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targedau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i osod targedau bioamrywiaeth ddomestig, a fydd yn cael eu halinio â strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol ddiwygiedig i Gymru.

## Ein hymchwiliad

**4.** Ddeunaw mis ar ôl i'r Fframwaith gael ei fabwysiadu, a chyn y Bil 'natur-bositif' y mae disgwyl mawr amdano, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r her o atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

### Cylch Gorchwyl

**5.** Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried y canlynol:

- Effeithiolrwydd polisïau, cyllid, dyletswyddau statudol cyfredol wrth atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030;
- cynnydd tuag at weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth;
- trefniadau cyfredol ar gyfer monitro bioamrywiaeth; a
- dulliau newydd sydd eu hangen i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

### Ein dull ni

**6.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 7 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2024 a chafwyd 44 o ymatebion. Ym mis Medi a mis Hydref 2024, cynhaliodd gyfres o sesiynau tystiolaeth gydag academyddion, Cyfoeth Naturiol Cymru, cynrychiolwyr y sector amgylcheddol ac awdurdodau

cyhoeddus, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Ceir rhestr o sesiynau tystiolaeth ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**7.** Roedd y dystiolaeth a gawsom gan gyfranwyr yn eang ac yn amlygu cymhlethdod a maint yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn bresennol a llywodraethau'r dyfodol o ran helpu i ddod â bioamrywiaeth yn ôl o'r dibyn. Mae llawer o'r materion a godwyd, megis mynd i'r afael â bygythiadau a ffactorau sy'n sbarduno dirywiad bioamrywiaeth, swyddi a sgiliau gwyrdd, a chynllunio morol, yn addas ar gyfer ymchwiliadau ar wahân. Er nad ydym wedi bod mewn sefyllfa i archwilio'r materion hyn yn fanwl yn yr amser sydd ar gael, byddwn yn ceisio mynd ar eu trywydd gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'n gwaith craffu ehangach.

**8.** Un o'r themâu a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth oedd rôl hollbwysig Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) Llywodraeth Cymru o ran gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyhoeddi adroddiad ar gynigion ar gyfer y Cynllun. Ym mis Awst 2024, ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried cyllideb y Cynllun yng nghyd-destun cynyddu buddsoddiad ym myd natur.

**9.** Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor.

# 2. Fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol ar gyfer cefnogi natur

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**10.** Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn rhoi mesurau ar waith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sydd wedi'u hategu gan gyfres o egwyddorion yn seiliedig ar ddull ecosystem Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r dull ecosystem yn nodi'n glir y cysylltiad rhwng statws systemau adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem sy'n cefnogi llesiant dynol.

**11.** Mae Deddf 2016 yn nodi'r amcan, yr egwyddorion, a'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae cydrannau allweddol y fframwaith yn cynnwys:

- Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi asesiad o gyflwr adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth. Cyhoeddwyd yr Adroddiad diweddaraf yn 2020.

- Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol – rhaid i Weinidogion Cymru lunio polisi cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, risgiau, a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Rhaid adolygu'r polisi ar ôl pob etholiad y Senedd gan ystyried canfyddiadau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau. Cyhoeddwyd y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol cyntaf, y cyfeirir ato fel y Polisi Adnoddau Naturiol, yn 2018.

- Datganiadau ardal – sylfaen dystiolaeth leol a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i lywio camau gweithredu i gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol. Cyhoeddwyd saith datganiad ardal ar gyfer Cymru gyfan yn 2020.

- Mae dyletswydd bioamrywiaeth (y cyfeirir ati hefyd fel 'dyletswydd adran 6') yn nodi gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Rhaid i awdurdodau gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a llunio adroddiad ar y cynllun hwnnw.

- Rhestr o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth (cyfeirir ati fel 'rhestr adran 7'). Trawsosodwyd y rhestr yn wreiddiol o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 gyda'r bwriad o'i adolygu a'i ddiweddaru.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**12.** Cynlluniwyd Deddf 2016 i weithio mewn ffordd integredig gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), sef deddfwriaeth gyffredinol Cymru ar ddatblygu cynaliadwy.

**13.** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n nodi saith 'nod llesiant' ar gyfer cyrff cyhoeddus, gan gynnwys 'Cymru gydnerth':

> *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru

**14.** Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw strategaeth a chynllun gweithredu anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'n ffurfio rhan o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU mewn ymateb i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

**15.** Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â Chynllun Strategol Bioamrywiaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig yng Nghymru (a ddisodlwyd gan Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal a thargedau cysylltiedig).

**16.** Mae'r Strategaeth yn cynnwys amcanion ar gyfer yr amgylcheddau tirol a morol ac ymyriadau/camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i'w cyflawni. Cafodd y Cynllun Gweithredu ei adnewyddu ar gyfer 2020-21 er mwyn ystyried tystiolaeth gynyddol ynghylch faint o fioamrywiaeth sy'n cael ei cholli a'r cyd-destun polisi newidiol yng Nghymru.

**17.** Cytunodd llofnodwyr Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal, gan gynnwys y DU, i gyflwyno eu Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu

Cenedlaethol ar Fioamrywiaeth cyn COP16 ym mis Hydref 2024. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnwys ei Chynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig fel atodiad i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Fioamrywiaeth. Ar wahân, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig ym mis Mai 2024. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Fioamrywiaeth na'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig wedi'u cyhoeddi.

**18.** Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil sydd ar ddod ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth yn nodi cynigion ar gyfer strategaeth a chynllun gweithredu statudol ar gyfer bioamrywiaeth. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd y Cynllun yn cael ei addasu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith adfer natur, gan gynnwys y targedau bioamrywiaeth, a'r ymateb i Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal, yn hytrach na chreu strategaeth statudol newydd ar gyfer adfer natur. Yn lle cynllun gweithredu statudol, mae'n ystyried defnyddio cynlluniau cyflawni manwl i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod y fframwaith adfer natur yn cael ei gyflawni.

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

**19.** Tynnodd cyfranwyr sylw at y ffaith, er gwaethaf ymrwymiad Llywodraeth Cymru i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, ynghyd a deddfwriaeth amgylcheddol unigryw Cymru, a chynlluniau lefel uchel a 'pholisïau natur-bositif', bod bioamrywiaeth yng Nghymru yn parhau i ddirywio, fel y dangosir gan Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 ac adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023.

**20.** Dywedodd yr Athro Ormerod:

> *"Wales's environmental legislation in general is just full of positives…But, the evidence that we see from the environmental trajectory in Wales is that what we have has failed to make a difference in stemming biodiversity loss".*

**21.** Dywedodd WWF Cymru er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i roi natur wrth galon y broses o wneud penderfyniadau, bod polisïau a ddatblygwyd wedi tueddu i fod yn llai effeithiol yn ymarferol. Dywedodd cyrff anllywodraethol amgylcheddol eraill fod gan Lywodraeth Cymru bolisïau cadarnhaol 'ar bapur', ond bod diffyg adnoddau a chapasiti wedi effeithio ar gyflawni.

**22.** Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am gyflenwi mwy sylweddol gyda llawer mwy o frys ac effeithiolrwydd. Roedd yr Athro Ormerod o'r farn hefyd bod adnoddau, cymhellion a blaenoriaethu yn parhau i fod yn ffactorau sy'n rhwystro cynnydd ar gyflymder neu raddfa ddigonol.

## Deddf 2016

**23.** Dywedodd Alex Phillips, WWF Cymru, wrth y Pwyllgor eu bod yn ymateb i 2030 gyda hen strwythurau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a oedd i'w gweld ar y pryd yn broblematig. Cyfeiriodd at Ran 1 ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel casgliad o uchelgeisiau a strwythurau adrodd aneglur nad ydynt wedi sicrhau llawer o newid mewn gwirionedd. Mewn cymhariaeth, nododd fod Rhan 2 ar newid hinsawdd, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer ymateb Cymru i leihau allyriadau carbon, yn gweithio'n dda. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ddysgu gwersi o hyn cyn cyflwyno'r Bil sydd ar ddod.

**24.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod Deddf 2016 yn darparu fframwaith i helpu i gydlynu polisïau a gwaith cyflawni. Fodd bynnag, ychwanegodd fod llawer o botensial nad yw'n cael ei ddefnyddio yn y pwerau a'r dyletswyddau o dan y Ddeddf.

**25.** Wrth sôn am y Fframwaith Adfer Natur, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru mai dim ond ychydig o effaith y mae wedi'i chael mewn gwirionedd. Cyfeiriodd WWF Cymru ato fel un amwys ac anymrwymol i'r pwynt lle gellir edrych yn ôl a chyfiawnhau'r rhan fwyaf o weithredu neu ddiffyg gweithredu yn ei gynnwys. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r Fframwaith eto yn dilyn etholiad diwethaf y Senedd (Mai 2021).

**26.** Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru nad yw datblygu Datganiadau Ardal wedi bod yn ddim mwy nag ymarfer mapio ac ymarfer rhanddeiliaid, ac nad yw'n amlwg eto a fyddant yn newid ac yn gwella prosesau a sut y byddant yn gwneud hynny. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol fod Datganiadau Ardal yn annigonol, yn anaddas yn eu ffurf bresennol, a heb eu defnyddio yn ymarferol. Roedd y Sefydliad wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mehefin 2023 gyda chyfres o argymhellion ar gyfer gwelliannau ond nid oedd wedi cael ymateb eto.

## Alinio ag ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig

**27.** Yn ôl cynrychiolwyr y sector amgylcheddol, nid yw'r amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cyd-fynd yn llwyr ag ymrwymiadau byd-eang a

domestig o ran adfer natur. Yn lle hynny, yr amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw:

> ***Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau*** *a'r buddion y maent yn eu darparu*

**28.** Roedd cyfranwyr o'r farn bod y Bil sydd ar ddod yn gyfle i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Galwodd WWF Cymru am ddiwygio Deddf 2016 i gynnwys 'adfer natur', gan ychwanegu:

> *"[This along with] timebound biodiversity targets that require cross-government action to deliver…would have the effect of strengthening the Government's nature framework to a more formal and deliverable 'black letter' approach to policy making."*

**29.** Adleisiwyd yr uchod gan RSPB Cymru. Galwodd hefyd am i'r 'amcan ecosystemau' mewn perthynas â rheoli tir yn gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023[1] gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r angen am adfer byd natur.

## Dyletswydd adran 6

**30.** Soniodd Rebecca Sharp, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, am amrywiad rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â gweithredu dyletswydd adran 6, gan awgrymu bod hyn oherwydd diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru pan ddechreuodd y ddyletswydd. Ychwanegodd:

> *"… some authorities are a bit stronger on it than others…But I would say that that duty has essentially put biodiversity on the radar in local authorities…I think it's still going to be slow-going, because any change in Government organisations can take a while, but I think there is momentum behind it now. I think we've got quite a long way to go for biodiversity to necessarily be considered at the same kind of priority level as other things, shall we say? But we're moving in the right direction."*

[1] Yr 'amcan ecosystemau' yw: cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu, a thrwy wneud hynny ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**31.** Pwysleisiodd Rebecca Sharp yr angen i swyddogion bioamrywiaeth ac ecolegwyr gefnogi awdurdodau i weithredu'r ddyletswydd. Esboniodd fod adrannau bioamrywiaeth ac ecoleg awdurdodau wedi bod yn brin o adnoddau a heb ddigon o staff ers degawdau.[2] Awgrymodd y gallai'r ddyletswydd gael ei addasu i gynnwys monitro a gorfodi cliriach a dealltwriaeth go iawn o'r hyn a ddisgwylir a sut olwg sydd ar lwyddiant.

**32.** Ym mis Medi 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru OB3 Research i gynnal gwerthusiad o'r gwaith i weithredu dyletswydd adran 6. Nid yw canfyddiadau'r gwerthusiad wedi'u cyhoeddi. Mae Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith tebyg yn ddiweddar. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd wedi'i gyhoeddi.

### Cynllun Gweithredu Adfer Natur

**33.** Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur traws-lywodraethol â chostau wedi'u nodi. Dywedodd y byddai hyn yn rhoi darlun cliriach o'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur; galluogi buddsoddiad mewn natur; a darparu cyfleoedd ar gyfer integreiddio rhwng portffolios a sectorau. Yn yr un modd, dywedodd WWF Cymru fod angen dirfawr am gynllun clir sy'n cynnwys costau ar gyfer adfer natur i asesu'r angen am fuddsoddiad a llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth fuddsoddi.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**34.** Wrth ymateb i bryderon cyfranwyr ynghylch effeithiolrwydd Deddf 2016, esboniodd Claire Bennett, Llywodraeth Cymru, mai'r bwriad yw i'r fframwaith adfer natur a nodir yn y Bil sydd ar ddod adeiladu ar y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dywedodd:

> *"even if the existing provisions in the legislation aren't fully delivering what we might want, it's how do we build on that and enhance it and improve it, rather than create a parallel system…we've looked really hard at how we can use the existing mechanisms [in the 2016 Act], build the [new] legislation on it…then focus on how do you support implementation, because the words in law are important, obviously—it's a really key part of the framework—but what, actually, is done is what matters."*

[2] Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 3 Hydref 2024

**35.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er nad yw Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'r ddyletswydd adran 6, y bydd y Bil sydd ar ddod yn cynnwys dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i gyfrannu at gyflawni targedau bioamrywiaeth.

**36.** Ym mis Mai 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru fod gwaith yn mynd rhagddo "i gwmpasu'r gwaith sydd ei angen [i adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur] gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith diweddaru o fewn y 12 mis nesaf".[3] Ym mis Rhagfyr 2023, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd wrth y Pwyllgor, y byddai gweithgor yn dechrau gwaith ym mis Ionawr 2024 i gynnal adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol. Nododd fod disgwyl i'r adolygiad gael ei gwblhau ym mis Hydref 2024, ac y byddai polisi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn dilyn hynny. Pan ofynnwyd iddo am ddiweddariad ar gynnydd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod wedi ymrwymo i'r adolygiad, gan nodi ei fod yn ofyniad statudol.

**37.** Mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd ac y bydd yn parhau i fod ar waith hyd nes y caiff ei ddiwygio i ymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang ac argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.

## Ein barn ni

Y darlun cyffredinol a roddwyd gan gyfranwyr i'n hymchwiliad oedd bod casgliad cymhleth o bolisïau, deddfwriaeth, strategaethau a chynlluniau. Mae effeithiolrwydd y llu o ymyriadau yn amrywio, ond mae pryder cyffredinol bod diffyg adnoddau staffio yn Llywodraeth Cymru yn golygu nad yw ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, gwelsom enghreifftiau o oedi, ymrwymiadau heb eu cyflawni, a therfynau amser a fethwyd. Mae hyn yn bryder sylfaenol i'r Pwyllgor hwn.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Ar y pryd, ystyriwyd bod Rhan 1 o Ddeddf 2016 (Deddf 2016) yn flaengar ac yn arloesol, gan roi fframwaith ar waith i gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu nad yw'r Ddeddf wedi'i gwreiddio yn ôl y bwriad a bod elfennau allweddol wedi bod yn aneffeithiol i raddau helaeth o ran ysgogi gweithredu dros natur. At hynny, ers Deddf 2016, mae'r rheidrwydd o

[3] Llywodraeth Cymru, diweddariad chwemisol ar argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, Mai 2023

ran natur wedi cynyddu – mae'r Senedd wedi datgan argyfwng natur, ac mae ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig newydd wedi'u gwneud.

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod y problemau gyda Deddf 2016 yn ddeublyg: gwendidau o ran sut y mae rhai darpariaethau wedi'u drafftio a gweithredu aneffeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r materion hyn i sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol Cymru i gefnogi adferiad byd natur yn gadarn ac yn gydlynol.

**Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**

Rydym yn rhannu pryderon y cyrff anllywodraethol amgylcheddol nad yw'r amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf 2016 yn canolbwyntio'n ddigonol ar fioamrywiaeth ac nad yw'n cyd-fynd yn llawn ag ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil sydd ar ddod i ddiwygio'r amcan i fynd i'r afael â hyn.

**Polisi Adnoddau Naturiol**

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn elfen allweddol o'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dylai bennu blaenoriaethau a pholisïau llywodraeth newydd Cymru, gan adlewyrchu cyflwr presennol adnoddau naturiol Cymru. Dylai gynnig cyfeiriad clir o ran cyflawni polisïau yn ystod tymor y llywodraeth honno. Ond mae wedi dyddio ac, yn ôl cyrff anllywodraethol amgylcheddol nid yw wedi cael llawer o effaith.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Lywodraeth Cymru adolygu'r Polisi ar ôl pob etholiad cyffredinol. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet presennol a'i ragflaenydd wedi dewis cymhwyso'r dehongliad ehangaf posibl i'r gofyniad statudol i adolygu'r Polisi ar ôl pob etholiad cyffredinol. O ganlyniad, tair blynedd a hanner i mewn i'r Chweched Senedd, rydym yn dal i aros i'r adolygiad gael ei gwblhau. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd wedi cydymffurfio â'r gofyniad ar yr amod y cynhelir adolygiad cyn diwedd tymor y Senedd hon. Rydym yn cydnabod y gallai fod rheswm da pam y dewisodd Llywodraeth Cymru beidio ag adolygu'r Polisi yn uniongyrchol ar ôl etholiad cyffredinol Mai 2021, yn enwedig yr awydd i ystyried canlyniad COP15 a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod dehongliad Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol nac yn cyd-fynd ag ysbryd y gofyniad.

Mae'r Bil sydd ar ddod yn gyfle i ddiwygio'r gofyniad i sicrhau ei fod yn cyflawni'r effaith a fwriadwyd, gydag adolygiad yn cael ei gwblhau ar ddechrau tymor Senedd.

Rydym yn ymwybodol o gynnig Llywodraeth Cymru i addasu'r Polisi yn lle llunio strategaeth statudol ar wahân ar gyfer adfer natur. Rydym yn disgwyl archwilio'r mater hwn yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil.

**Datganiadau ardal**

Diben Datganiadau Ardal yw hwyluso'r broses o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Fodd bynnag, clywsom nad ydynt yn addas i'r diben, yn cael eu deall yn dda nac yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Rydym o'r farn y byddai'n amserol i Lywodraeth Cymru adolygu Datganiadau Ardal gyda'r nod o nodi gwendidau a rhwystrau presennol i weithredu'n effeithiol, a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy.

**Dyletswydd Adran 6**

Er gwaethaf y ddyletswydd adran 6, mae bioamrywiaeth yn parhau i gael ei fwrw i'r cysgod gan flaenoriaethau eraill o fewn awdurdodau cyhoeddus. Efallai y bydd y ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau i gyfrannu at dargedau bioamrywiaeth statudol yn y Bil sydd ar ddod yn helpu i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i dargedau gael eu gosod y bydd y ddyletswydd arfaethedig yn dod i rym, a allai, yn ôl Llywodraeth Cymru, fod bum mlynedd arall i ffwrdd. Yn yr achos hwnnw, rydym o'r farn bod angen gweithredu ar unwaith i wella effeithiolrwydd y ddyletswydd adran 6.

I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau dyletswydd adran 6 gyda'r bwriad o sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n ddigonol y newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig. Dylai hefyd ddefnyddio'r Bil sydd ar ddod i ddiwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i gryfhau trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd.

Rydym yn ymwybodol bod Archwilio Cymru wedi cynnal gwerthusiad o weithrediad y ddyletswydd adran 6 yn ddiweddar. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried pa newidiadau pellach a allai fod yn angenrheidiol yng ngoleuni canfyddiadau Archwilio Cymru.

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur**

Bwriad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Ddwy flynedd ar ôl ymrwymo i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, nid yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig wedi'i gyhoeddi eto. Mae hyn yn peri pryder mawr.

Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru esbonio pam na chyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu diwygiedig ym mis Mai 2024, fel y rhagwelwyd. Rhaid iddo weithio'n gyflym dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cael ei gyhoeddi fel blaenoriaeth.

Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2024-25 (Chwefror 2024), gwnaethom alw am i'r Cynllun Gweithredu diwygiedig gynnwys costau i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi craffu. Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod datblygu camau gweithredu hirdymor gyda chostau wedi'u nodi yn her oherwydd pwysau chwyddiant, ond ei bod yn fodlon ystyried nodi'r costau ar gyfer y camau gweithredu strategol tymor byr. Nid ydym yn ei ystyried y tu hwnt i alluoedd Llywodraeth Cymru i ddarparu costau amcangyfrifedig ar gyfer camau gweithredu hirdymor i gefnogi adferiad byd natur. Mae ymarferion costio tebyg wedi'u cwblhau gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac arbenigwyr annibynnol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau bod yr amcan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cynnwys cyfeiriad penodol at adfer bioamrywiaeth.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil sydd ar ddod ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 9(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredinol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol;
- ymrwymo i gwblhau adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor; a
- sicrhau bod y Polisi Adnoddau Naturiol yn gallu ysgogi gweithredu ar gyfer byd natur ar draws y llywodraeth gyfan, gyda pholisïau integredig sy'n cyd-fynd â thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030 a nodau ehangach.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, adolygu effeithiolrwydd y broses o weithredu Datganiadau Ardal. Dylai'r adroddiad:

- ystyried a yw Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol a sut maent yn cael ei defnyddio ar gyfer hynny,
- ceisio nodi unrhyw rwystrau posibl i weithredu effeithiol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei chanfyddiadau â'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau gwerthusiad OB3 Research o'r broses o weithredu'r ddyletswydd adran 6 ac egluro pa gamau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i'r canfyddiadau hynny.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- ddiweddaru'r canllawiau dyletswydd adran 6 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n ddigonol y newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig,
- gosod disgwyliad i awdurdodau cyhoeddus adolygu eu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yng ngoleuni'r canllawiau diwygiedig.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gryfhau trefniadau goruchwyliaeth ac atebolrwydd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig;
- ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu diwygiedig o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor;
- sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn glir, yn uchelgeisiol, yn fanwl ac yn cyd-fynd â thargedau a nodau ehangach Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030.

**Argymhelliad 9.** Dylid costio Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon gwneud hyn, dylai o leiaf sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cynnwys camau gweithredu tymor byr strategol wedi'u costio.

# 3. Fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer adferiad byd natur

**38.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, a dyletswydd statudol a thargedau i ddiogelu ac adfer byd natur.[4]

**39.** Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth (y Bil). Yn ôl y Papur Gwyn, bydd y Bil yn:

- pennu egwyddorion amgylcheddol cyffredinol i fod yn sail i bob penderfyniad polisi yn y dyfodol;
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cynnal cyfraith amgylcheddol;
- sefydlu 'Fframwaith Adfer Natur' i ddiogelu ac adfer natur, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth.

**40.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Bil ym mis Mehefin 2025.

**41.** At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio'n bennaf ar y Fframwaith Adfer Natur. Bydd y Bil yn destun gwaith craffu llawn a thrylwyr gan un o bwyllgorau'r Senedd (rhagwelir mai'r Pwyllgor hwn fydd hynny) ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

## Y 'Fframwaith Adfer Natur'

**42.** Roedd y 'Fframwaith Adfer Natur', fel y nodir yn y Papur Gwyn, yn cynnwys:

- Targedau bioamrywiaeth statudol sy'n cynnwys 'targed pennawd natur-bositif' ('targed pennawd') a chyfres o dargedau bioamrywiaeth ategol i'w pennu gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth.
- Gofynion monitro, adrodd a chraffu ar gyfer y targedau uchod.
- Strategaeth Adfer Natur yn nodi dull Llywodraeth Cymru o gyflawni'r targedau bioamrywiaeth a'i hymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-

[4] Mae hyn yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn y Bumed Senedd i ddeddfu i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i fynd i'r afael â'r 'bwlch llywodraethu' sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru.

eang. I gyd-fynd â hyn byddai cynllun gweithredu statudol yn manylu ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targedau a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer 'Cymru natur-bositif'.

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

### 'Targed pennawd'

**43.** Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynnig ar gyfer y 'targed pennawd' a ganlyn –

> *gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050.*

**44.** Mae hyn yn adlewyrchu carreg filltir bioamrywiaeth bresennol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n cyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Yn ei hymateb i'r Papur Gwyn (Gorffennaf 2024), dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried dileu'r 'targed pennawd' a chyflwyno 'diben neu ddatganiad cenhadaeth natur-bositif' yn ei le.

**45.** Mynegodd llawer o gyfranwyr bryder mewn perthynas â hyn, gan alw am gadw'r 'targed pennawd'. Dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru:

> *"We fear dropping the headline target, with its key 2030 and 2050 dates, risks undermining the pace of delivery. With 2030 dauntingly close, it is vital that urgent action is taken to secure meaningful and measurable positive change by then in line with Wales' global biodiversity commitments."*

**46.** Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod y Bil yn cynnal uchelgais y Senedd bresennol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Nododd fod yn rhaid iddo beidio â gadael lle i oedi pellach na bod yn agored i ddehongliad gwahanol gan Lywodraeth newydd. Mynegodd RSPB Cymru farn debyg.

**47.** Dywedodd Annie Smith, RSPB Cymru:

> *"we've had a global framework for biodiversity for decades, but it hasn't resulted in that sort of change in delivery. We need a step change in action…We're losing decades by not having this*

> *front and centre in Welsh legislation in the same way as net zero is there."*[5]

**48.** Ychwanegodd y byddai peidio â chynnwys y 'targed pennawd' yn gyfle coll enfawr a chyfeiriodd at risg o lithro o ran gosod targedau ategol.

**49.** Dywedodd Alex Phillips wrth y Pwyllgor:

> *"the reason we've been given [by the Welsh Government for replacing the headline target] in part is because this [Bill] has taken so long it might be 2028 by the time we get the actual targets in secondary legislation, and there isn't enough time between then and 2030 to deliver change."*

**50.** Tynnodd sylw at y ffaith bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi bod yn galw am y Bil ers 2017 a mynegodd rwystredigaeth y gallai'r oedi o ran ei gyflwyno arwain at wanhau'r uchelgais. Awgrymodd y dylid diwygio'r 'targed pennawd' i fynd i'r afael â phryderon ynghylch pa mor gyraeddadwy yw targed 2030, yn hytrach na'i ddisodli. Rhybuddiodd hefyd yn erbyn cael gwared ar darged ar gyfer 2050. Dywedodd:

> *"if 2030 isn't practically achievable at this point, why is 2050 going as well? That's surely achievable. Can we talk about 2035 as a next stage in the target?"*

### Targedau bioamrywiaeth

**51.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i osod targedau ar y pynciau lefel uchel a ganlyn: rhywogaethau (dosbarthiad, toreithrwydd, a risg diflannu), cynefinoedd (diogelu, rheoli ac adfer) ac iechyd, gwytnwch ac adfer ecosystemau.

**52.** Ar y cyfan, roedd y cyfranwyr yn croesawu'r cynnig i'r Bil gynnwys fframwaith ar gyfer pennu targedau bioamrywiaeth. Dywedodd RSPB Cymru wrth y Pwyllgor ei fod wedi dadlau ers tro dros dargedau bioamrywiaeth statudol i ysgogi gweithredu, adnoddau a phrif ffrydio ar draws y llywodraeth ac ar draws sectorau.

**53.** Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddatblygu targedau addas. Cwestiynodd NFU Cymru a Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA) sut y gellid gosod targedau yn absenoldeb data llinell sylfaen cadarn ar gyflwr presennol byd natur. Mynegodd NFU Cymru bryder y byddai'r targedau yn afrealistig ac anghyraeddadwy. Dywedodd fod yn rhaid i

[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 18 Medi 2024

unrhyw dargedau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gyraeddadwy, yn fesuradwy ac yn fforddiadwy, gyda'r mecanweithiau polisi cywir ar waith i'w galluogi a'u cefnogi.

**54.** Rhoddodd sawl cyfrannwr awgrymiadau ar gyfer targedau ychwanegol, er enghraifft, targedau i 'leihau bygythiad'. Galwodd WWF Cymru am gyfres gref o dargedau a fydd yn ysgogi camau gweithredu i fynd i'r afael â llygredd ar draws y llywodraeth, gyda ffocws penodol ar lygredd dŵr croyw.

### Amserlen ar gyfer gosod targedau

**55.** Yn ôl y Papur Gwyn, bydd targedau'n cael eu gosod gan reoliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Yn seiliedig ar yr amserlen safonol ar gyfer craffu ar Fil, rhagwelir y bydd yn debygol y ceisir Cydsyniad Brenhinol yn gynnar yn y gwanwyn yn 2026.

**56.** Pwysleisiodd RSPB Cymru yr angen i osod targedau'n gyflym er mwyn sicrhau bod ymdrechion Cymru i sicrhau adferiad byd natur ar y trywydd iawn. Tynnodd sylw at y ffaith na fydd y gwaith o weithredu darpariaethau'r Bil yn dechrau tan dymor nesaf y Senedd, gan ychwanegu mai'r Bil yw'r unig gyfle sydd gan y Senedd bresennol i osod amserlenni ar gyfer gosod targedau sy'n ei gwneud yn glir pa mor bwysig yw bwrw ati ar frys i gyflawni newid. Dywedodd Annie Smith wrth y Pwyllgor ei bod yn hynod bwysig osgoi sefyllfa lle nad yw rheolau'n cyrraedd tan 2028. Nododd fod angen rhywbeth yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu cyflwyno o fewn cyfnod byr o amser. Mynegodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru farn debyg.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**57.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod amrywiaeth o safbwyntiau ymhlith ymatebwyr ynghylch y cynnig ar gyfer 'targed pennawd' i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i weithio gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch symud i ffwrdd o 'darged pennawd' i ddod o hyd i ffordd adeiladol ymlaen.

**58.** O ran yr amserlenni ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor mai'r cynnig presennol yw cyflwyno rheoliadau o fewn 36 mis i gymeradwyo'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd:

> *"we really need to work to make sure that we don't replicate existing targets—we get the targets right based on what flows out of COP15 and COP16, and that might take a little bit of time to get it right. It's better to get them right."*

**59.** Mewn gohebiaeth ddilynol, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymeg dros ganiatáu 36 mis i osod y targedau.

**60.** Eglurodd Alice Teague fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ystod o dargedau (rhai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a rhai sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu), gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r hyn sy'n ysgogi'r broses o golli bioamrywiaeth, er enghraifft, llygredd maethynnau. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn awyddus i ystyried yr hyn a ddysgwyd yn Lloegr, lle mae targedau eisoes wedi'u gosod, a'r Alban. Ymrwymodd i roi syniad o sut olwg fydd ar y targedau hyn pan gyflwynir y Bil, i gefnogi gwaith craffu'r Senedd.

## Ein barn ni

**Y Bil sydd ar ddod**

Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi annog Llywodraeth Cymru yn gyson i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu amgylcheddol a chyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol drwy ddeddfwriaeth. Er y disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2025 erbyn hyn, mae'r oedi a gafwyd yn siomedig. Mae'r penderfyniad hwn wedi gwthio'r cyfrifoldeb am roi darpariaethau'r Bil ar waith i Lywodraeth nesaf Cymru. Er mwyn sicrhau nad oes oedi ymhellach o ran cynnydd, mae'n hanfodol bod y Bil yn cynnwys amserlenni uchelgeisiol ar gyfer sefydlu'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd a gosod targedau bioamrywiaeth, gan ganiatáu i'r blaenoriaethau hyn gael sylw yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

Rhagwelwn y bydd y Bil yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor hwn i graffu arno. Er nad ydym yn dymuno gwneud sylwadau cyn i ganfyddiadau'r gwaith hwnnw gael eu cyhoeddi, yn yr adroddiad hwn rydym yn cynnig safbwynt rhagarweiniol ar y Fframwaith Adfer Natur, ac yn benodol, y targedau bioamrywiaeth.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd bwrw ati ar frys i fynd i'r afael â cholli natur. Mae'r un mor hanfodol â mynd i'r afael â newid hinsawdd, ac eto, mae sicrhau'r un lefel sylw cyhoeddus a gwleidyddol i'r mater hwn wedi bod yn anodd. Bydd y Bil yn gyfle i fynd i'r afael â hyn. Mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos ei hymrwymiad i adfer byd natur ac yn rhoi fframwaith deddfwriaethol cryf ar waith i ysgogi a chynyddu gweithredu ar gyfer byd natur. Ond mae arwyddion sy'n peri pryder eisoes fod Llywodraeth Cymru yn lleihau ei huchelgeisiau, gan symud i ffwrdd o'r 'targed pennawd natur-bositif' arfaethedig rhag ofn y bydd yn rhy anodd ei gyrraedd, a'i bod yn gohirio cyflwyno targedau bioamrywiaeth tan ymhell i mewn i'r Seithfed Senedd. Mae perygl y bydd hyn yn tanseilio effaith y Bil.

**'Targed pennawd'**

Mae awgrym yr Ysgrifennydd Cabinet na fydd darged pennawd yn cael ei gynnwys yn y Bil yn destun pryder inni. Mae targed Cymru i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, yn unol â'r ymrwymiad byd-eang o ran newid hinsawdd, wedi'i nodi yng nghyfraith Cymru. Mae'n ddiamwys ac yn cael ei ddeall yn eang. Nid yw'n glir pam mae Llywodraeth Cymru yn gyndyn i fabwysiadu'r un dull mewn perthynas ag adfer byd natur. Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad erbyn 2050, rydym yn disgwyl i 'darged pennawd' sy'n adlewyrchu hyn gael ei gynnwys ar wyneb y Bil.

**Targedau bioamrywiaeth**

Rydym o'r farn bod amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth yn methu ag adlewyrchu'r angen am ymateb pendant ac ar unwaith i'r argyfwng naturiol. Mae'n golygu efallai na fydd targedau'n cael eu gosod tan 2029 – flwyddyn cyn bod angen cyrraedd targedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030, gan gynnwys y targed allweddol o 30 erbyn 30. Nid yw hyn yn dderbyniol.

Bron i ddwy flynedd yn ôl, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd sicrwydd i'r Pwyllgor hwn fod gwaith ar gwmpasu targedau priodol eisoes yn mynd rhagddo. Mae'n destun pryder mawr y byddai angen pum mlynedd arall ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu set gadarn o dargedau. Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gosod targedau bioamrywiaeth ar gyfer Lloegr, ac mae mwy o gynnydd wedi'i wneud yn yr Alban hefyd nag yng Nghymru.

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymeg dros gymryd 36 mis i bennu'r targedau. Dywedodd wrthym fod creu'r is-ddeddfwriaeth yn unig yn cymryd o leiaf 12 mis (o'r cam ymgynghoriad hyd at y cam cyflwyno), yn dibynnu ar y slot a ddyrennir yn y cyfarfod llawn. Noder, er y gellir datblygu polisïau ar gyfer y targedau cyn y cam Cydsyniad Brenhinol, ni allwn ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth cyn i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei chyflwyno gan mai gweithredu cyn i'r bleidlais gael ei chynnal yn y Senedd fyddai hyn. Nid ydym wedi ein darbwyllo gan yr angen, felly, am oedi o 36 mis. Fel y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi, gallai ymgysylltu â rhanddeiliaid ddigwydd ochr yn ochr â hynt y Bil, gyda'r is-ddeddfwriaeth wedyn yn cael ei chyflwyno 12 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Rydym o'r farn bod hwn yn nod realistig ac yn un y dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i'w gyflawni yng ngoleuni'r argyfwng bioamrywiaeth.

Mae amseriad y Bil yn golygu mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithredu ei ddarpariaethau. Er mwyn atal oedi pellach, rhaid i'r Bil gynnwys amserlenni uchelgeisiol ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod y mater hwn yn cael ei flaenoriaethu yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bwysleisio'r angen am ddull 'Tîm Cymru' o ymdrin ag adferiad byd natur. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn yn dangos bod llawer o randdeiliaid—gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ar lawr gwlad ag ymdrechion cadwraeth—yn teimlo eu bod wedi'u cau allan o drafodaethau sy'n llywio ymateb Cymru i ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddull cynhwysol o osod targedau, gan ymgysylltu'n ystyrlon ag ystod eang o randdeiliaid.

## Argymhellion

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys 'targed pennawd' yn y Bil sydd ar ddod, wedi'i alinio ag ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad erbyn 2050.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu manylion y gwaith y mae wedi'i wneud ers mis Mawrth 2023 i gwmpasu targedau priodol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gyngor arbenigol a geisiwyd ac unrhyw waith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y bydd wedi cymryd chwe blynedd i ddatblygu targedau yng Nghymru ac a yw hynny'n dderbyniol, o ystyried bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 13.** Yng ngoleuni'r oedi sylweddol o ran datblygu targedau, ac o ystyried bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau a ddyrennir i adrannau sy'n ymdrin â'r maes polisi hwn gyda'r nod o fodloni ei hun bod y rhain yn ddigonol. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- dechrau rhaglen o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar unwaith gyda'r bwriad o benderfynu pa dargedau bioamrywiaeth y dylid eu datblygu fel blaenoriaeth,
- gwneud darpariaeth yn y Bil i'r 'targedau blaenoriaeth' hyn gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol,
- gwneud darpariaeth yn y Bil i'r targedau sy'n weddill gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

# 4. Cynnydd tuag at 30 erbyn 30

## Beth yw 30 erbyn 30?

**61.** Ystyrir bod targed '30 erbyn 30' y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang yn ganolog i ymdrechion i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

> ***Y targed '30 erbyn 30'***
>
> *Ensure and enable that by 2030 at least 30 per cent of terrestrial, inland water, and of coastal and marine areas, especially areas of particular importance for biodiversity and ecosystem functions and services, are effectively conserved and managed through ecologically representative, well-connected and equitably governed systems of protected areas and other effective area-based conservation measures…*

## Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth - cam cyntaf

**62.** Gan ragweld y byddai'r targed '30 erbyn 30' yn cael ei fabwysiadu, yn haf 2022 comisiynodd Llywodraeth Cymru grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Amcan yr Archwiliad Dwfn oedd datblygu set o gamau ar y cyd y gellid eu cymryd ar unwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed.

**63.** Daeth yr Archwiliad Dwfn i ben ym mis Hydref 2022, gan nodi wyth o themâu allweddol a 43 o argymhellion ar gyfer camau gweithredu penodol. Sefydlwyd nifer o weithgorau arbenigol i fwrw ymlaen â'r argymhellion a/neu eu datblygu ymhellach, mewn perthynas â thirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol), Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Seiliedig ar Ardal (OECMs) a gwaith monitro. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei diweddariad cyntaf ar y gwaith i weithredu'r argymhellion. Cyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig ar gynnydd pellach ym mis Gorffennaf 2024.

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

### Gweithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn

**64.** Ar y cyfan, croesawodd y cyfranwyr argymhellion yr Archwiliad Dwfn fel cam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, nododd sawl cyfrannwr ddiffyg cyfathrebu effeithiol mewn perthynas â chanlyniad yr Archwiliad Dwfn a'r camau nesaf.

**65.** Er bod ymdeimlad cyffredinol bod cynnydd wedi'i wneud o ran bwrw ymlaen â rhai argymhellion, ar y cyfan, roedd cyfranwyr o'r farn bod hyn yn arafach na'r angen, o ystyried maint yr her a'r amser cyfyngedig sydd ar ôl i gyrraedd y targed o 30 erbyn 30. Dywedodd yr Athro Steve Ormerod, er bod amryw gamau wedi'u cymryd neu wedi'u hargymell i gyflawni'r argymhellion hyn, fod y raddfa a'r cyflymder yn parhau i fod yn araf. Nododd Dr Richard Unsworth ei bod yn ddwy flynedd ers i'r argymhellion gael eu cytuno, ond na chafwyd llawer o weithredu mewn perthynas â'r prif argymhellion.

**66.** Mynegodd sawl cyfrannwr siom ynghylch diffyg cynnydd o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu gyda'r nod o wella cyflwr a rheolaeth safleoedd gwarchodedig. Dywedodd Annie Smith ei bod yn amlwg na chafwyd cynnydd o ran y camau hyn er eu bod yn hollbwysig i sicrhau bod modd cyrraedd y targed o 30 erbyn 30. Cafwyd sylwadau tebyg gan Celtic Rainforest LIFE, gan leisio pryder y bydd y toriadau arfaethedig i Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar y gallu i weithredu, ac yn llesteirio gwelliannau i safleoedd gwarchodedig ymhellach.

**67.** Dywedodd cyfranwyr, er bod gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddechrau gan y gweithgorau arbenigol, fod cynnydd wedi arafu yn y misoedd diwethaf. Dywedodd Rhys Owen, Tirweddau Cymru:

> *"the pace that things are operating on seems to have quietened down…we need to ensure that that intensity is still going on, or we're going to slip, and I think that's the concern. We're coming to the end of 2024 now; these targets refer to six, or five years—if we're being realistic about it."*

**68.** Dywedodd Annie Smith nad oedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, gan awgrymu y gallai hyn fod, yn rhannol o leiaf, oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn Llywodraeth Cymru.

**69.** Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith nad oedd y gweithgorau arbenigol wedi cael adnoddau neilltuedig neu ychwanegol, gan gyfeirio at ddibyniaeth ar 'ewyllys da' gan aelodau i wneud cynnydd. Ychwanegodd fod

diffyg capasiti allanol wedi rhoi pwysau ychwanegol ar Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn galluogi cynnydd drwy waith y grwpiau hyn.

**70.** Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion y mae'n arwain y gwaith yn eu cylch, ond pwysleisiodd na ddylid rhagdybio mai dim ond Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddylai gweithredu mewn perthynas â'r argymhellion. Ychwanegodd fod dull cydweithredol 'Tîm Cymru' a gweithredu cyflym yn hanfodol i gyflawni'r uchelgais ar y raddfa sydd ei hangen i gyflawni'r targed 30 erbyn 30 yn ystyrlon.

**71.** Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen cynllun gweithredu sy'n galluogi Tîm Cymru i gyflawni'r argymhellion ar y cyd i sicrhau perchnogaeth glir, a hynny o fewn yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer y camau gweithredu, gan sicrhau mwy o atebolrwydd a thryloywder. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Tirweddau Cymru, Dŵr Cymru a Celtic Forest LIFE, tra bod RSPB Cymru yn argymell cynllun ar gyfer cyflawni 30 erbyn 30, gan edrych ar ba gerrig milltir sydd angen eu cyflawni, ac erbyn pryd.

## Beth sy'n cyfrif tuag at 30 erbyn 30?

**72.** Dywedodd sawl cyfrannwr nad yw Llywodraeth Cymru wedi egluro'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio eto i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed 30 erbyn 30. Mae Defra wedi cyhoeddi meini prawf ar gyfer Lloegr, ynghyd â map o ardaloedd sy'n cyfrif tuag at 30 erbyn 30 ar hyn o bryd a'r rhai a allai gyfrannu o bosibl.

**73.** Nododd sawl cyfrannwr nad yw tirweddau dynodedig, at ddibenion 30 erbyn 30, yn cael eu hystyried yn 'ardaloedd gwarchodedig' yn eu rhinwedd eu hunain ac felly ni allent gyfrannu at y targed. Fodd bynnag, amlygwyd y potensial i ardaloedd diffiniedig o dirweddau dynodedig (yn arbennig, Parciau Cenedlaethol), gyfrannu fel Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Seiliedig ar Ardal. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar y potensial i dirweddau dynodedig gyflawni camau gweithredu ar raddfa tirwedd. Amlinellodd yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol yr achos dros ddibenion a dyletswyddau cryfach i alluogi Parciau Cenedlaethol i gyfrannu'n effeithiol at 30 erbyn 30, a fyddai'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol. Nododd fod y newidiadau hyn eisoes wedi'u gwneud yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori ar newidiadau tebyg.

## Y sefyllfa bresennol yng Nghymru

**74.** Eglurodd RSPB Cymru fod dynodiad cadwraeth natur yn cwmpasu tua 11% o dir a dŵr croyw Cymru. Fodd bynnag, nododd fod gwarchodaeth, monitro a

rheolaeth o'r safleoedd hyn yn annigonol. Yn ôl asesiadau cyflwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020, o'r nodweddion hynny a aseswyd, amcangyfrifwyd bod 20% mewn cyflwr ffafriol; bod tua 30% mewn cyflwr anffafriol; a bod tua 50% mewn cyflwr nad oedd yn ddymunol.

**75.** Nododd sawl cyfrannwr, er bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cwmpasu dros 30% ar hyn o bryd, fod llai na hanner nodweddion y safleoedd mewn cyflwr ffafriol. Dywedodd Dr Richard Unsworth wrth y Pwyllgor, nad ydym yn agos at warchod 30% o'n hamgylchedd morol mewn modd priodol ac effeithiol erbyn 2030 a bod yr ymrwymiadau a wnaed yn fframwaith Kunming-Montreal i'w gweld yn bell o gael eu cyflawni.

## Monitro cyflwr safleoedd

**76.** Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro cyflwr y nodweddion safleoedd gwarchodedig drwy Fonitro Safonau Cyffredin y DU. Mae Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn amlygu y dylai SoDdGA gael eu monitro o leiaf bob chwe blynedd o dan drefniadau Monitro Safonau Cyffredin. Fodd bynnag, nid yw llawer o safleoedd wedi cael eu hasesu o fewn chwe blynedd ac nid ymwelwyd â rhai ers dros 10 mlynedd.

**77.** Dywedodd RSPB Cymru nad oes digon o adnoddau ar hyn o bryd i fonitro safleoedd dynodedig. Nododd fod hyn yn amlwg yn Asesiad Gwaelodlin Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020, lle mae adnoddau staff annigonol yn cael eu nodi dro ar ôl tro fel rheswm dros nodi bod cyflwr nodweddion yn 'anhysbys'. Ychwanegodd:

> *"The 30by30 target requires an uplift in this monitoring capacity, as recognised by the Monitoring Expert Group under the [Biodiversity Deep Dive]. As well as protected area condition, measuring against 30by30 will require monitoring of the area of land and sea that can be counted towards the target, as well as the effectiveness of management of protected areas and OECMs, their connectedness and their governance."*

**78.** Mynegodd cyfranwyr eraill safbwyntiau tebyg.

**79.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y diffyg adnoddau ar gyfer monitro. Dywedodd fod ehangu monitro i gwmpasu o leiaf 30% o dir a môr yn cyflwyno her sylweddol. Nododd fod angen buddsoddi mewn monitro seilwaith, datblygu dulliau safonol, a meithrin gallu ar bob lefel.

### Rheoli safleoedd gwarchodedig yn effeithiol

**80.** Dywedodd Huwel Manley fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cynnydd da tuag at wella rheolaeth safleoedd gwarchodedig dros y blynyddoedd diwethaf drwy amryw raglenni, gan gynnwys y rhaglenni LIFE, y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

**81.** Mynegodd sawl cyfrannwr bryder bod cyfyngiadau capasiti ac adnoddau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar ei allu i gefnogi'r gwaith o reoli safleoedd gwarchodedig drwy gytundebau adran 16. Dywedodd FUW wrth y Pwyllgor:

**82.** "According to NRW, during 2017, 67.1% of SSSI sites in Wales were identified as being in need of management action, yet only 5.47% of SSSIs are covered by management agreements… Last year, our members who had Section 16 Management Agreements to manage SSSI/SAC land had them terminated, with no transitional funding offered."

**83.** Yn yr un modd, dywedodd RSPB Cymru fod cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cytundebau adran 16 wedi'i thorri, sy'n golygu bod llawer o gytundebau aml-flwydd nad ydynt wedi cael eu hadnewyddu.

**84.** Wrth ymateb i hyn, dywedodd Huwel Manley wrth y Pwyllgor fod cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cytundebau adran 16 wedi'i hailgyflwyno. Ychwanegodd fod y sefydliad ar fin bwrw ymlaen â rhai cytundebau ychwanegol ar gyfer y flwyddyn, ac yn gobeithio llofnodi tua 60 i 80 o adnewyddiadau ar gyfer gweddill y flwyddyn bresennol.

**85.** Pwysleisiodd nifer o gyfranwyr yr angen i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi ac yn gwobrwyo ffermwyr yn deg ar gyfer rheoli SoDdGA yn effeithiol. Eglurodd Huwel Manley fod ychydig dros 1,080 o SoDdGA gyda thua 5,500 o berchnogion tir SoDdGA, a bod llawer ohonynt yn ffermwyr. Dywedodd mai'r gobaith yw y bydd y cynllun hwnnw'n ei gwneud yn bosibl ymestyn ymhellach i'r cymunedau amaethyddol er mwyn gweithio gydag eraill i reoli'r safleoedd hynny.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**86.** Wrth ymateb i bryderon bod cyfyngiadau o ran adnoddau yn effeithio ar y cynnydd o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod blaenoriaeth i adnoddau ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus y Bil Egwyddorion Amgylcheddol,

Llywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth, gan nodi ei fod yn waith sylweddol. Fodd bynnag, nododd:

> *"the work we're doing in the Biodiversity Deep Dive remains core to us. The key expert group that we have has been meeting on a regular basis. They've produced recommendations and next steps. I'm very, very keen that the work of these groups…continues to move at pace and is focused on delivery of that 30x30 target."*

**87.** Gwrthododd yr Ysgrifennydd Cabinet yr awgrym nad oes digon o frys i roi argymhellion yr Archwyliad Dwfn ar waith. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo drwy raglenni a mentrau amrywiol i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni 30 erbyn 30, gan nodi'r Rhaglen Rhwydwaith Natur, cynllun ailgylchu offer pysgota ar diwedd ei oes, a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd fel enghreifftiau. Ychwanegodd:

> *"They're happening now right on the ground, and not without significant investment of Welsh Government to allow partners to get on with these…It's not that we don't sense the urgency—we're doing it, and some things we're achieving ahead of timescale as well."*

**88.** Pan ofynnwyd iddo egluro'r meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed o 30 erbyn 30, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn seiliedig ar y diffiniad targed, fod y meysydd a allai gyfrif yn cynnwys SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Ychwanegodd:

> *"There is clearly going to be a role, as well, for other designated landscapes, like our national parks, so we're looking at that and how they can contribute within the current regulatory framework we have for national parks—could they do more? Could it be enhanced? And, of course, areas of outstanding natural beauty and others. But there's also that wider piece that we're looking at for designated landscapes that are captured within that term of OECMs…"*

**89.** Eglurodd Alice Teague, Llywodraeth Cymru, fod y gweithgor arbenigol Tirweddau Dynodedig yn ystyried pa ardaloedd o fewn tirweddau dynodedig allai gyfrif tuag at y targed. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y grŵp arbenigol wedi nodi sawl ffrwd gwaith i'w blaenoriaethu, gan gynnwys datblygu mapiau

Camau Gweithredu Adfer Natur sy'n cynnwys manylion blaenoriaethau ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig. Bydd y mapiau hyn yn amlinellu blaenoriaethau cadwraeth allweddol a chyfleoedd ar gyfer adferiad natur ar raddfa tirwedd.

**90.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod ychydig llai na 70% o'r ardal forol a 10.5% o'r tir a'r ardal fewndirol yn cael eu hystyried yn 'ardaloedd gwarchodedig' at ddiben y targed 30 erbyn 30. Fodd bynnag, ychwanegodd fod angen eu rheoli'n ystyrlon er mwyn iddynt gyfri tuag at y targed.

**91.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da tuag at 30 erbyn 30, ond ychwanegodd:

> *"it's probably too early right at this moment to measure quite where we are on that trajectory. But the commitment stands very strong—30 by 30 is where we're heading".*

**92.** Esboniodd y bydd cynnydd yn cael ei adolygu yn gynnar yn 2026.

## Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod cyrraedd y targed 30 erbyn 30 yn her sylweddol. Fodd bynnag, gyda dim ond pum mlynedd yn weddill, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i awgrymu bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyrraedd y targed neu fod ganddi gynllun clir a chredadwy (y tu hwnt i argymhelliad yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth) i gefnogi'r gwaith cyflawni.

Nid yw'r diffyg eglurder ynghylch y meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i bennu'r meysydd a fydd yn cyfrif tuag at 30 erbyn 30 yn helpu. Rhaid mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth. Mae meini prawf Defra ar gyfer Lloegr yn nodi bod yn rhaid i ardaloedd fod mewn cyflwr ffafriol neu fod yn gwella i gyfrif tuag at y targed. Disgwyliwn i'r meini prawf ar gyfer Cymru fod yr un mor uchelgeisiol â'r rhai ar gyfer Lloegr.

Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, mae 10.5% o ddyfroedd daearol a mewndirol Cymru, ynghyd â bron i 70% o'i hardaloedd morol, wedi'u dynodi fel rhai gwarchodedig. Mae hyn yn golygu y bydd angen diogelu 20% pellach o ddyfroedd daearol a mewndirol Cymru a'u rheoli'n effeithiol i gyrraedd y targed. At hynny, bydd angen i'r ardaloedd hynny sydd eisoes wedi'u diogelu gael eu monitro a'u rheoli'n well i gyfrif tuag at y targed.

Bron i ddwy flynedd yn ôl, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor hwn fod gwaith ar y gweill i gyd-gynhyrchu'r cynllun gweithredu sy'n sail i'r argymhellion gyda chyfres ehangach o randdeiliaid i gefnogi dull gweithredu

'Tîm Cymru'. Ond eto, nid oes unrhyw arwydd o gynnydd. Rhaid mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Nododd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 43 o argymhellion i helpu i gyrraedd y targed 30 erbyn 30. Er bod hwn yn gam cyntaf pwysig, rydym yn pryderu bod momentwm i'w weld yn lleihau. Rydym yn pryderu bod diffyg capasiti a chyfyngiadau o ran adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru ac ymhlith rhanddeiliaid yn ei gwneud yn anodd symud ymlaen. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hollbwysig os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd y targed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i ddarparu diweddariadau chwemisol ar weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn, ond nid yw hyn wedi'i gyflawni. Rydym yn cwestiynu a yw hyn, unwaith eto, yn fater o adnoddau. Rydym yn cydymdeimlo â chyfyngiadau adnoddau i raddau, ond mae gan Lywodraeth Cymru ddewis clir – dylai roi'r gorau i wneud ymrwymiadau na all eu cadw, neu rhaid iddi flaenoriaethu adnoddau i'w cyflawni.

## Argymhellion

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio eto i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed 30 erbyn 30. Dylai hyn ei gwneud yn glir y dylid monitro safleoedd gwarchodedig i nodi llinellau sylfaen ac asesu cynnydd, y dylent fod â chynllun rheoli, ac y dylent fod mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella er mwyn cyfrif tuag at y targed.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw at ei haddewid i lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targed 30 erbyn 30. Dylai'r cynllun gweithredu wneud y canlynol:

- ymgorffori argymhellion a gododd o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a'i weithgorau arbenigol cysylltiedig, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob cam gweithredu, gydag amserlenni disgwyliedig ar gyfer eu cyflawni,
- cynnwys cerrig milltir allweddol tuag at gyrraedd y targed.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth lunio'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 i helpu i feithrin y dull 'Tîm Cymru' sydd ei angen i gyrraedd y targed a chyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth domestig a byd-eang ehangach.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 a'r targed 30 erbyn 30.

# 5. Ardaloedd morol ac arfordirol

## Cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

**93.** Yn 2016, nododd asesiad rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru nifer o ddiffygion o ran diogelu rhai nodweddion yng nghyfraniad Cymru at rwydwaith y DU. Y flwyddyn ganlynol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol pellach. Ers 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i nodi ardaloedd addas ar gyfer dynodiadau Parth Cadwraeth Morol posibl drwy'r Rhaglen Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y byddai ei phroses ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad ar ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn dechrau, yn unol ag un o argymhellion yr Archwiliad Dwfn. Roedd ymgynghoriad ffurfiol ar safleoedd arfaethedig i fod i gael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2024, er bod hyn wedi'i ohirio wedyn.

**94.** Amlygodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol fod y broses ddynodi wedi wynebu oedi sylweddol, gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dweud eu bod wedi bod yn aros dros ddegawd am Barthau Cadwraeth Morol newydd. Ychwanegodd:

> *"In an increasingly crowded sea, MCZs could offer refuge to rare species and help to protect essential blue carbon stores. The process must progress at pace, alongside work to better manage and reduce pressures on existing MPAs."*

**95.** Cafwyd sylwadau tebyg gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol a WWF Cymru.

**96.** Mewn tystiolaeth ddilynol, esboniodd RSPB Cymru fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi ysgrifennu at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parth Cadwraeth Morol ym mis Hydref 2024 i'w hysbysu na fyddai ymgynghoriad ffurfiol yn digwydd tan ar ôl etholiad nesaf y Senedd (Mai 2026). Mynegodd RSPB Cymru bryder bod yr oedi pellach hwn yn codi amheuaeth ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni 30 erbyn 30 ar gyfer moroedd Cymru.

**97.** Dywedodd RSPB Cymru hefyd:

> *"The Welsh Government has previously committed to evaluating the need for further designations for mobile species, including seabirds, once the current MCZ process is complete…Given the delay to the current MCZ process, we are seeking a commitment from the Welsh Government to undertaking this work now, by commissioning an evaluation of*

> *the sufficiency of the current MPA network as a whole for seabirds, complementing current work to develop a Welsh Seabird Conservation Strategy."*

## Monitro morol a data

**98.** Tynnodd cyfranwyr sylw at fylchau sylweddol o ran deall pwysau ar yr amgylchedd morol oherwydd heriau o ran monitro a sefydlu cysylltiadau achosol rhwng pwysau ac effeithiau. Cyfeiriodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol at yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn 2020, gan nodi fod gennym ddealltwriaeth anghyflawn o rai pwysau a bod llenwi'r bwlch hwn yn hanfodol i gyflawni argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ar gyfer yr amgylchedd morol. Codwyd y pryder hwn gan Ymddiriedolaeth Natur Cymru a Tir Natur hefyd, gan nodi bod angen rhoi sylw ar frys i'r drefn fonitro annigonol, yn enwedig ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**99.** Y tu hwnt i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, tynnodd cyfranwyr sylw at Raglen Fonitro Bioamrywiaeth Forol y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fel un hollbwysig ond nodwyd ei bod yn cael ei thangyllido'n barhaus a bod diffyg fframwaith clir ar gyfer darparu adnoddau ar y cyd ar draws gwledydd y DU.

**100.** Tynnwyd sylw at raglen *Whole of Seabed* Ystad y Goron fel menter bwysig, sydd â'r nod o adeiladu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr i gefnogi gwaith i reoli adnoddau morol yn y tymor hir. Mae'r rhaglen yn ystyried cadwraeth natur y tu mewn a'r tu allan i'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn cyd-fynd ag argymhellion yr Archwiliad Dwfn.

## Adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli

**101.** Mae'r ymrwymiad yn yr Archwiliad Dwfn i "Sefydlu cynllun wedi'i dargedu i hyrwyddo gwaith adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein harfordir" yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu.

**102.** Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol a Dr Unsworth wrth y Pwyllgor y cytunwyd mewn cyfarfod bord gron Gweinidogol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 y byddai Rhwydwaith Morwellt Cymru (sy'n cynnwys y Llywodraeth, asiantaethau rheoli, cyrff anllywodraethol, ymarferwyr a byd busnes) yn datblygu Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Gweithredu, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024, yn amlinellu rhaglen adfer morwellt ledled Cymru dros y 25 mlynedd nesaf. Mynegodd Dr Unsworth rwystredigaeth bod sefydliadau'n gorfod gwneud cais am arian grant i gefnogi'r

gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu yn hytrach na'i fod yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

## Cynllunio morol

**103.** Pwysleisiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol a chyfranwyr eraill yr angen am ddulliau cadwraeth newydd ym maes cynllunio morol. Mynegwyd pryderon am ôl troed sylweddol datblygiadau gwynt ar y môr, gyda hyd at 40GW dan ystyriaeth, a allai fygwth cynefinoedd sensitif. Argymhellodd y cyfranwyr y dylid canolbwyntio ar arferion pysgota cynaliadwy a gwella seilwaith morol drwy gyllid pwrpasol, ochr yn ochr â chydweithio parhaus ag Ystad y Goron.

**104.** Pwysleisiodd y cyfranwyr bwysigrwydd cynllunio gofodol i fynd i'r afael â phwysau cronnol ac i alinio datblygiad morol â nodau cadwraeth. Tynnwyd sylw at yr angen am arweinyddiaeth wleidyddol gadarn ac adnoddau i sicrhau'r buddion pellgyrhaeddol y gall ecosystemau morol iach eu cyflwyno.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**105.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai dynodiadau Parthau Cadwraeth Morol yn cael eu cwblhau cyn diwedd y Chweched Senedd, soniodd yr Ysgrifennydd Cabinet eto am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Rhaglen Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Dywedodd fod chwe Ardal Chwilio wedi'u nodi, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cyflwyno cyngor cadwraeth manwl ar gyfer yr ardaloedd hyn.

**106.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd contractwr wedi'i benodi i gynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel y cynlluniwyd yn gynharach yn 2024, gan arwain at oedi yn y broses ymgynghori ffurfiol.

**107.** Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith i adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli, gan gydnabod eu cyfraniadau at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Tynnodd sylw at ddyraniadau cyllid presennol, gan gynnwys £248,000 o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur i gyflymu ymdrechion adfer yn ne Cymru a £50,000 o'r Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhag dibynnu ar arian cyhoeddus a phwysleisiodd pa mor bwysig yw sicrhau adnoddau ychwanegol i gefnogi mentrau ar raddfa fawr.

**108.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd angen gwaith datblygu pellach er mwyn i'r cynllun gweithredu ar forwellt fod yn rhaglen hyfyw, yn debyg i'r dull a

ddefnyddiwyd gyda'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, a oedd yn cynnwys ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid dros ddwy flynedd.

## Ein barn ni

Mae'r cynnydd o ran ehangu'r rhwydwaith o safleoedd morol gwarchodedig wedi bod yn siomedig o araf. Ar sawl achlysur, rydym wedi tynnu sylw at y diffyg cynnydd ar Barthau Cadwraeth Morol, ond ni fu llawer o newid. Mae perygl y bydd yr oedi cyson o ran ymgynghori ar Barthau Cadwraeth Morol yn tanseilio hyder, ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i chael dro ar ôl tro, mae'r argraff y mae hyn yn ei rhoi i randdeiliaid ynghylch y flaenoriaeth a roddir i gadwraeth forol yn destun pryder.

Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r camau nesaf o ran y broses ymgynghori a dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi amserlen glir ar gyfer penodi contractwr, nodi pa mor fuan y bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar ôl y penodiad hwn, ac amlinellu'r camau gweithredu dilynol ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol. At hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cefnogi gan fframweithiau rheoli cadarn sy'n gallu mynd i'r afael â phwysau allweddol fel gweithgareddau pysgota, datblygiadau alltraeth, ac effeithiau dynol eraill.

Rydym o'r farn bod gwerthusiad trylwyr o ddigonolrwydd rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ar gyfer rhywogaethau symudol, gan gynnwys adar môr, yn hanfodol. Dylid defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i lywio cynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol a strategaethau morol ehangach i sicrhau bod mesurau cadwraeth yn effeithiol.

Clywsom fod gan y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol botensial sylweddol i gryfhau ecosystemau morol. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol yn unol â'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'w roi ar waith.

Yn olaf, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morfa heli ar hyd arfordir Cymru. Rydym o'r farn y gall y gwaith hwn wneud cyfraniad sylweddol at amcanion hinsawdd a bioamrywiaeth.

## Argymhellion

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r camau nesaf a gymerir mewn perthynas â'r broses ymgynghori a dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Dylai hyn gynnwys amserlen ar gyfer penodi contractwr, manylion ynghylch pa mor fuan ar ôl penodi contractwr y cynhelir yr ymgynghoriad, a manylion am y camau nesaf yn y broses ddynodi.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cefnogi gan fframweithiau rheoli cadarn, sy'n mynd i'r afael â phwysau allweddol fel gweithgareddau pysgota, datblygiadau alltraeth, ac effeithiau dynol eraill.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad o ddigonolrwydd rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ar gyfer rhywogaethau symudol, gan gynnwys adar môr, a dylai'r canfyddiadau gael eu hadlewyrchu mewn cynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol a strategaethau morol.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol a darparu adnoddau fel y gellir bwrw ymlaen i'w weithredu, yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

**Argymhelliad 23.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morfa heli ar hyd arfordir Cymru.

# 6. Buddsoddi mewn natur

**109.** Darperir cyllid ar gyfer natur yn uniongyrchol drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau ar draws ystod o feysydd polisi, er enghraifft, y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a Natur am Byth (ymhlith eraill). Mae ffynonellau eraill o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at fyd natur, fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**110.** Yn dilyn ar Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, ymrwymodd Llywodraeth Cymru, yn y tymor hwy, i "[g]ynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn adfer natur drwy sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng natur wedi'i integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth".

**111.** Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2020-21 Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wireddu a chynyddu buddsoddiad preifat i gefnogi adferiad byd natur. Ategodd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth hyn, gan ymrwymo Llywodraeth Cymru i gymryd camau i "[r]yddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy".

**112.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy Drafft, a fydd yn llywio'r ymagwedd at fuddsoddi preifat ym myd natur. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau bod cyllid "yn gywir, o fudd ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol, yn atal newid defnydd tir yn amhriodol ac yn osgoi gwyrddolchi".

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

### Deall yr angen am fuddsoddiad a chynyddu cyllid cyhoeddus

**113.** Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at adroddiad Llwybrau i 2030 (Mawrth 2023) Cyswllt Amgylchedd Cymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu cynllun ar gyfer ariannu camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer adferiad byd natur. Amcangyfrifodd fod angen gwariant blynyddol ychwanegol o £158 miliwn i gyflawni'r camau hyn. Bu bron i amcangyfrif diweddaraf Cyswllt Amgylchedd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, dreblu i £438 miliwn, yn rhannol oherwydd pwysau chwyddiant ac amcangyfrifon newydd, ond hefyd oherwydd bod y sefyllfa'n gwaethygu.

**114.** Mae adroddiad Cyswllt Amgylchedd Cymru yn adlewyrchu barn llawer o gyfranwyr:

> *"Delivering the actions required for nature's recovery requires an increase in public investment in nature. We need to invest more*

> *in managing land to maintain and restore habitats, in research and monitoring actions to develop our evidence base, in communications and education to enhance the awareness of stakeholders and the public, in human resources to develop and implement nature policies and programmes, in stronger governance, and in regulatory enforcement."*

## Y dull ariannu presennol

**115.** Gan gyfeirio at y dulliau ariannu presennol, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu bod:

> *"yn tueddu i fod yn rhai tymor byr, yn drwm o ran cyfalaf, a manteisgar, gyda ffocws cyfyngedig ar reoli a gwerthuso hirdymor. Byddai dull mwy strategol, tymor hwy, gyda mwy o gyllid ar gyfer gweithgarwch refeniw ac ar gyfer monitro/gwerthuso a rheoli hirdymor yn fwy cynaliadwy ac yn fwy effeithiol o ran canlyniadau i natur".*

**116.** Roedd cyfranwyr yn teimlo y gall cylchoedd ariannu prosiectau byrdymor achosi anawsterau, yn benodol grantiau blwyddyn 1, gan arwain at ansicrwydd sylweddol. Er bod Rebecca Sharp wedi canmol y Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur fel fwy na thebyg y cynllun grant mwyaf llwyddiannus y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, ychwanegodd:

> *"At the moment, funding is not confirmed yet for next year, which means that that delivery mechanism is currently potentially going to disappear at the end of this financial year, including all of the staff and all of that support for the local nature partnerships, and all the community groups that are also doing really good work out there."*

**117.** Gwnaeth Rhys Owen bwynt tebyg.

**118.** Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo y gall cylchoedd ariannu achosi anawsterau ymarferol ar gyfer cyflawni prosiectau. Dywedodd Game and Wildlife Conservation Trust Cymru fod cylchoedd ariannu sy'n seiliedig ar flwyddyn ariannol yn gwneud cynllunio a chyflawni gwaith o fewn tymor nythu, er enghraifft, bron yn amhosibl. Cafwyd adroddiadau hefyd bod dyddiadau cau tynn ar gyfer gwneud ceisiadau yn ei gwneud yn anodd i rai sefydliadau eu bodloni ac y gallant fod yn rhwystr rhag cydweithio

**119.** Gwnaeth sawl cyfrannwr, gan gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru, dynnu sylw at y gofyniad am gyfranogiad a arweinir gan y gymuned mewn prosiectau fel rhwystr posibl o ran cael arian grant. Eglurodd fod rhai ardaloedd y mae angen adfer natur ar frys yn arbennig o anghysbell neu'n anodd eu cyrraedd, sy'n golygu bod cynnwys y gymuned yn anymarferol. Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Cymru fod mewnbwn cymunedol yn broblem o ran rheoli safleoedd morol gwarchodedig.

### Grantiau mawr ar gyfer gweithredu ar raddfa tirwedd

**120.** Pwysleisiodd sawl cyfrannwr bwysigrwydd grantiau mawr (dros £250,000) i gyflawni prosiectau ar raddfa tirwedd, gan nodi bod y rhain yn brin ar hyn o bryd. Eglurodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> *"[Medium grants (up to £250k)]… are not fully addressing declining biodiversity; nature needs us to act across landscapes, together and at scale. By design, they fall short of delivering against the necessary connectivity depicted by the Welsh Government's DECCA principles and NRW's Resilient Ecological Networks approach of bigger sites, better condition, and better connected and more resilient."*

**121.** Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, sy'n rhan o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, yn darparu grantiau i gryfhau gwydnwch y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol gan gefnogi adferiad byd natur tra'n annog ymgysylltu cymunedol. Eglurodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a WWF Cymru fod toriad o £3.7 miliwn yn y gyllideb i'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur (cyfwerth â 27%) yn 2023-24 yn golygu na ddyfarnwyd unrhyw grantiau ar raddfa fawr yn Rownd 3 o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur. Fodd bynnag, cafodd grantiau mawr eu hailgyflwyno yn Rownd 4.

**122.** Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a WWF Cymru fod llawer gormod o geisiadau i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur. Yn 2022, cyflwynwyd 36 o Ddatganiadau o Ddiddordeb, cyfanswm o fwy na £30 miliwn (tair gwaith y gyllideb sydd ar gael ar gyfer grantiau canolig a mawr). Yn ôl WWF Cymru, mae hyn yn dangos lefel y galw, yr angen, a'r cyfle i gyflawni ar raddfa ddigonol.

**123.** Dywedodd FUW fod gallu ffermwyr i gael mynediad at y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn gyfyngedig, gan ychwanegu mai sefydliadau cadwraeth sy'n tueddu i elwa. Nododd WWF Cymru fod capio cyfranogiad i un cais fesul sefydliad yn cyfyngu ar y gallu i fod yn uchelgeisiol.

**124.** Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru a chyfranwyr eraill na fu unrhyw gyllid arall yn sgil colli mynediad at LIFE yr UE ar ôl gadael yr UE. Eglurodd RSPB Cymru a Celtic Rainforests LIFE fod nifer o brosiectau adfer gwerth miliynau o bunnoedd a gefnogir gan arian LIFE yr UE yn dod i ben gan adael bwlch o ran cyllid.

**125.** Dywedodd RSPB Cymru er bod Landscape Connections, menter newydd ar gyfer y DU gyfan gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn ariannu prosiectau gwerth uchel ar raddfa fawr, mae'n hynod gystadleuol.

## Ariannu ffermio natur-gyfeillgar

**126.** Tynnodd y cyfranwyr sylw at rôl hollbwysig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) sydd ar ddod i gefnogi adferiad byd natur. Dywedodd WWF Cymru ei bod yn debygol mai'r cynllun fydd yr ymyrraeth fwyaf arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru am flynyddoedd i ddod o ran gweithredu ym maes byd natur a'r hinsawdd. Yn yr un modd, dywedodd Plant Life y gallai annog arferion ffermio natur-gyfeillgar drwy'r Cynllun fod y dull pwysicaf ar gyfer cyflawni ym maes bioamrywiaeth yng Nghymru.

**127.** Cyfeiriodd y cyfranwyr at yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllideb y Cynllun yn y dyfodol. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol, gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol yn amlygu pwysigrwydd ariannu'r haenau Dewisol a Chydweithredol (h.y. camau gweithredu mwy datblygedig a fydd yn sicrhau'r budd amgylcheddol mwyaf).

**128.** Galwodd NFU Cymru am ymrwymiad ariannu realistig, aml-flwyddyn sy'n gymesur â maint yr uchelgais i gyflawni dros fyd natur a newid hinsawdd. Nododd FUW fod cyllid aml-flwyddyn yn hanfodol, gan ychwanegu bod prosiectau i greu, rheoli a gwella cynefinoedd yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor gan ffermwyr.

**129.** Nododd sawl cyfrannwr fod y gyllideb amaethyddol bresennol yn hanner y swm sydd ei angen i gyrraedd targedau ar gyfer byd natur a newid hinsawdd, gan ddyfynnu canfyddiadau adroddiad Maint yr Angen 2024 (Gorffennaf 2024), a luniwyd gan yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r Ymddiriedolaethau Natur, i gefnogi hyn. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif costau ariannol cyflawni blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir amgylcheddol yn y DU. Canfu fod angen cynyddu buddsoddiad Cymru i £595 miliwn y flwyddyn (o tua £300 miliwn) i ariannu ffermwyr i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, a darparu bwyd cynaliadwy.

## Galluogi buddsoddi preifat mewn adferiad byd natur

**130.** Pwysleisiodd cyfranwyr bwysigrwydd buddsoddi preifat i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer byd natur, gan bwysleisio rôl allweddol Llywodraeth Cymru o ran galluogi buddsoddi cyfrifol. Roedd barn gyffredinol bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf i fwrw ymlaen â'r maes gwaith hwn. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor nad oes llwybr nac amserlen glir ar hyn o bryd i gefnogi ac arwain buddsoddiad cadwraeth priodol yng Nghymru gan ffynonellau preifat.

**131.** Honnodd cyfranwyr fod gan y sector cyrff anllywodraethol brofiad gwerthfawr i fanteisio arno o ran denu buddsoddiadau preifat. Eglurodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru eu bod wedi sicrhau rhodd o £38 miliwn gan Aviva i adfer coedwigoedd glaw tymherus coll Prydain. Dywedodd:

> *"… the Welsh Government needs to significantly upskill itself and engage with the Wales Development Bank in opening up investment markets in Wales. Working with NGOs will ensure high-integrity projects that produce permanent results for nature and climate and critically involve local communities. The opportunities are considerable yet we have only seen political delays."*

**132.** Yn yr un modd, dywedodd WWF Cymru fod angen i Lywodraeth Cymru uwchsgilio ei hun o ran Cyllid Gwyrdd i fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â busnesau sydd am fuddsoddi mewn adferiad byd natur, gan fod hynny'n gwneud synnwyr o safbwynt busnes.

**133.** Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at Gronfa MARINE Cymru fel enghraifft dda o sut y gall modelau ariannu newydd weithio ar gyfer adferiad byd natur. Mae MARINE Fund Cymru yn seiliedig ar Gronfa Gwella Amgylchedd Forol yr Alban (SMEEF), sy'n denu buddsoddiad preifat gan ddatblygwyr (ac eraill) ar ffurf rhoddion gwirfoddol. Caiff hwn ei ailddosbarthu drwy grantiau i gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi adferiad byd natur yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.

**134.** Cyfeiriodd yr Athro Ormerod at y Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol yn Lloegr, sydd wedi'i sefydlu i oruchwylio'r fframwaith llywodraethu ar gyfer Marchnadoedd Amgylcheddol yn y DU sy'n cymryd rhan. Mae tair marchnad beilot ar waith ar hyn o bryd. Awgrymodd yr Athro Ormerod y gallai Cymru ddysgu gwersi o hyn, gan ychwanegu ei bod ychydig ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr.

**135.** Er i Rhys Owen gydnabod yr angen am fuddsoddiad preifat, dywedodd fod y canfyddiad mai dyma'r cyfle pennaf i gael cyllid yn bell o fod yn wir ar hyn o bryd. Wrth gyfeirio at brosiectau adfer mawndiroedd sy'n cael eu hariannu drwy werthu credydau carbon, dywedodd fod costau gweinyddol a llywodraethu'r prosiectau hynny'n afresymol iawn, a bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn fach iawn o ganlyniad. At hynny, gan gyfeirio at brofiad Parc Cenedlaethol Eryri o weithio gyda gwneuthurwr ceir o'r Almaen, dywedodd ei bod yn anodd iawn a bod y gofynion yn gyfnewid am fuddsoddiad yn anferth mewn llawer o achosion.

## Cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

**136.** Roedd pryder eang nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol. Gwaethygwyd hyn gan gyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2024 ar newidiadau arfaethedig i'w strwythur staffio.

**137.** Cyfeiriodd Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid at y sefyllfa enbyd o ran cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru, gan nodi:

> *"As the statutory nature conservation agency in Wales, NRW should be setting a lead in many aspects of biodiversity recovery, inspiring action across different sectors, demonstrating best practice and where necessary, prosecuting infringements of protected sites. NRW has traditionally been a highly capable organisation that employs staff who are respected experts in their fields, working at the heart of conservation in Wales. We are alarmed to witness the symptoms of severe financial under-resourcing on such a valued mainstay of conservation in Wales."*

**138.** Ychwanegodd:

> *"Without a well-resourced SNCO, the aim of halting and reversing biodiversity decline by 2030 will be near-impossible."*

**139.** Dywedodd Dr Richard Unsworth wrth y Pwyllgor, os ydym yn ystyried bioamrywiaeth yn flaenoriaeth, bod angen ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigonol, ac nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

**140.** Cododd nifer o gyfranwyr bryderon nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o gapasiti ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn effeithiol; er enghraifft, ymgysylltu â ffermwyr mewn trafodaethau ar y ffordd orau o reoli safleoedd dynodedig. Dywedodd Plant Life ei

bod yn hanfodol sicrhau cyllid newydd yn hytrach nag ailddyrannu arian presennol i ffwrdd o gyfrifoldebau eraill i gefnogi gwaith, nad oes gan y sefydliad ddigon o adnoddau.

**141.** Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad ei bod yn hanfodol i Cyfoeth Naturiol Cymru gael adnoddau digonol i gyflawni dros fyd natur. Fodd bynnag, cododd bryder am y ffordd y mae arian y sefydliad yn cael ei reoli a'i ddyrannu ar hyn o bryd, gan awgrymu nad yw'r arian yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf doeth.

**142.** Wrth wneud sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i strwythur staffio Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd RSPB Cymru:

> *"nature conservation delivery is already critically under-resourced. WEL's Pathways to 2030 report, identifying investment needed in key actions for nature recovery, repeatedly points to the need for an increase in people to deliver on statutory functions and programmes. The further loss of capacity in relation to specialist ecological advice, and the monitoring and management of protected areas risks undermining the legacy of flagship programmes like Natur am Byth, our delivery of '30 by 30' and ultimately Wales' ability to reverse biodiversity loss and restore the benefits it provides to all people."*

**143.** Mynegodd y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol bryder y bydd y colledion swyddi a ragwelir o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain at gwtogi ar weithgareddau, gan gynnwys arweiniad a chyngor i'r llywodraeth, er mwyn blaenoriaethu dyletswyddau statudol. Yn ôl y Sefydliad, bydd hyn yn gwanhau ei effeithiolrwydd cyffredinol ac yn lleihau ei allu i gyflawni rhwymedigaethau ehangach nawr ac yn y dyfodol. Mynegwyd barn debyg gan Coed Cadw.

**144.** Wrth sôn am yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd Ceri Davies o'r sefydliad wrth y Pwyllgor fod pwysau ar eu hadnoddau, gan ychwanegu nad oedd y sefydliad yn wahanol i unrhyw gorff sector cyhoeddus arall. Pwysleisiodd fod y sefydliad yn ceisio sicrhau ei fod yn blaenoriaethu gwaith ar fioamrywiaeth, yn unol â'i Gynllun Corfforaethol newydd, Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd. Eglurodd Nadia De Longhi, Cyfoeth Naturiol Cymru, fod y newidiadau arfaethedig i'r strwythur staff yn cael eu cyflwyno nid yn unig i wneud arbedion ariannol sylweddol, ond hefyd i alluogi'r sefydliad i ailffocysu ei adnoddau ar y gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ei dair blaenoriaeth gorfforaethol, sef natur, yr argyfwng hinsawdd a lleihau

llygredd, ynghyd â'r gwaith statudol y gall Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig ei wneud, boed hynny'n waith rheoleiddiol neu waith ei gorff natur statudol.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**145.** Pan ofynnwyd iddo pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefel y buddsoddiad cyhoeddus sydd ei angen i gefnogi adferiad byd natur, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"We're aware that there are good organisations outside who have made their own assessments, and we are interested in the assessments that they've made...We recognise that there is a significant shortfall in the quantum of funding that's needed to go into nature restoration in Wales. By the way, the same applies, I would argue, across the UK, across western Europe, probably across the world as well."*

**146.** Ychwanegodd fod llawer o ffyrdd y mae'r Llywodraeth eisoes yn cynyddu'r buddsoddiad o'r sector cyhoeddus, ond nododd hefyd fod angen meddwl sut mae llenwi'r bwlch hwnnw.

**147.** Wrth sôn am yr angen am gyllid aml-flwyddyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod yn rhaid 'chwarae â'r cardiau sy'n dod i law'. Nododd y byddai mwy o sicrwydd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu dros y tymor hwy. Cydnabu fod yna sefydliadau sy'n dibynnu'n llwyr ar gontractau blynyddol, gan ychwanegu y byddai wrth ei fodd yn symud i ffwrdd o'r sefyllfa honno.

**148.** O ran y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn cydnabod bod diffyg. Er ei fod yn cytuno, mewn egwyddor, â'r angen i gynyddu'r buddsoddiad yn y Cynllun, ychwanegodd na fydd byth digon o arian ym mhoced y trethdalwr ganiatáu ar gyfer popeth y dymunir ei wneud. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio'r un lefel o gyllid gan Drysorlys y DU ag a gafodd ar gyfer 2024/25, gyda chynnydd yn unol â chwyddiant, gan ychwanegu bod DEFRA yn dadlau'r un achos mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol.

**149.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at bwysigrwydd sicrhau amrywiaeth o ffynonellau cyllid i wneud iawn am y diffyg mewn buddsoddiad cyhoeddus er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun yn effeithiol.

**150.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull strategol newydd ar gyfer cyllid cynaliadwy i'w galluogi i gynyddu graddfa a chyflymder y gwaith i gyflawni adferiad byd natur, gan gyfeirio at yr ymgynghoriad

diweddar ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy Drafft. Eglurodd y byddai'r dull o gynyddu buddsoddiad preifat yn seiliedig ar gamau, gan nodi:

> *"… it'll be not a leap at this in one tranche, but actually develop the principles, best practice and build and build and work with the stakeholders externally to get this right."*

**151.** Ychwanegodd:

> *"We are also engaged in sustainable finance initiatives at the UK level, recognising the need for consistent standards. This includes the ongoing work with the British Standards Institute to help develop recognised standards for green and sustainable finance and support financial markets deliver positive environmental outcomes."*

**152.** O ran Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ffocws, mewn cyfnod o gyni ariannol, ar eu prif swyddogaethau rheoleiddiol, cyfreithiol, a statudol. Ychwanegodd nad yw sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad yn unigryw, gan ychwanegu bod rheoleiddwyr amgylcheddol yn Lloegr hefyd dan bwysau ac wedi bod dros y degawd diwethaf.

**153.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud penderfyniadau anodd iawn a'u bod yn canolbwyntio ar weithio gyda'r undebau llafur i geisio osgoi colli swyddi yn ddiangen.

**154.** Wrth sôn am bryderon ynghylch effaith y newidiadau arfaethedig i strwythurau staff ar ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai un o ddibenion craidd y sefydliad yw hybu gwaith i adfer bioamrywiaeth.

## Ein barn ni

Mae'r Sefydliad Cyllid Gwyrdd wedi awgrymu y bydd angen rhwng £5 biliwn a £7 biliwn erbyn dechrau'r 2030au i gyflawni ymrwymiadau Cymru mewn perthynas â byd natur. Mae hwn, yn ôl unrhyw amcangyfrif, yn fuddsoddiad sylweddol.

Rydym yn pryderu felly nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos dealltwriaeth glir eto o faint o gyllid sydd ei angen ar gyfer adferiad natur yng Nghymru. Er ei bod wedi cydnabod y bwlch ariannu natur, nid yw wedi darparu ffigur clir ar gyfer ei buddsoddiad presennol mewn ymrwymiadau seiliedig ar natur. Nid oes

ganddo gynllun chwaith i gyrraedd yn agos at y ffigurau a amcangyfrifwyd gan y Sefydliad Cyllid Gwyrdd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud sawl addewid cyhoeddus i gynyddu buddsoddiad mewn adferiad byd natur, nid yw’r rhain wedi cynnwys manylion am amseru na’r dull cyflawni eto. Rydym o’r farn bod angen ymagwedd strategol, hirdymor at ariannu adferiad byd natur ar frys. Mae Cynllun Buddsoddi Bioamrywiaeth arfaethedig Llywodraeth yr Alban yn cynnig enghraifft ddefnyddiol bosibl, gyda’r nod o ysgogi cyllid cyhoeddus a phreifat. Rydym o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a ellir datblygu cynllun tebyg, wedi’i deilwra i heriau a chyfleoedd unigryw Cymru.

Mae buddsoddiad sector preifat hefyd yn allweddol i fynd i’r afael â’r bwlch ariannu. Er bod buddsoddiad preifat mewn adferiad byd natur eisoes yn digwydd yng Nghymru, mae perygl y gallai’r diffyg strategaeth glir arafu cynnydd. Mae rhanddeiliaid wedi galw am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ac am gamau gweithredu i fynd i’r afael â rhwystrau i fuddsoddiad preifat. Rydym yn cytuno bod yn rhaid i strategaeth i ariannu adferiad byd natur fynd i’r afael â’r materion hyn.

Rydym o’r farn bod gwneud y defnydd gorau o’r cyllid presennol hefyd yn hanfodol i sicrhau cynnydd tuag at y targed 30 erbyn 30. Mae’r Rhaglen Rhwydwaith Natur a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ymysg eraill, yn ffynonellau hanfodol o gyllid i sicrhau y cyflawnir camau gweithredu ar lawr gwlad ar gyfer natur. Mae’r adolygiadau o’r Gronfa Rhwydweithiau Natur a’r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a gynhelir yn 2025, yn gyfle i nodi a mynd i’r afael â rhwystrau sydd wedi cyfyngu ar effeithiolrwydd y cronfeydd hynny. Dylai’r adolygiadau hyn ystyried y materion a godwyd gan gyfranwyr i’r ymchwiliad hwn a dylent ganolbwyntio ar sicrhau bod cyllid yn arwain at welliannau mesuradwy mewn bioamrywiaeth ac yn cefnogi ymdrechion hirdymor i sicrhau adferiad.

Pwysleisiodd sawl cyfrannwr i’n hymchwiliad bwysigrwydd grantiau mawr, fel y rhaglen ariannu Rhwydweithiau Natur. Mae’r rhaglen ariannu dair blynedd hon yn werth tua £45 miliwn ac yn cwmpasu cynefinoedd daearol, dŵr croyw a morol. Disgwylir i’r rhaglen ddod i ben yn 2025. Byddem yn ddiolchgar am gadarnhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet o’r cynlluniau ar gyfer y rhaglen. Os nad yw’r rhaglen yn mynd i barhau, neu os bydd y dyraniad cyllideb yn lleihau, dylai’r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu dadansoddiad o oblygiadau penderfyniadau o’r fath.

O ran ffynonellau cyllid eraill, rydym o'r farn y gallai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy chwarae rhan sylweddol o ran cyfuno adferiad byd natur â gweithredu ar yr hinsawdd, ond dim ond os caiff ei ariannu'n ddigonol. Rydym eisoes wedi rhybuddio yn ein hadroddiad diweddar bod y cynllun, heb lefelau priodol o fuddsoddiad, mewn perygl o fethu â chyflawni canlyniadau bioamrywiaeth ystyrlon. Rydym o'r farn bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ariannu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn briodol a'i gynllunio i gyflawni canlyniadau mesuradwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, i "archwilio dulliau o ddefnyddio arian preifat i ategu arian cyhoeddus drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy". Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad ar y mater hwn.

Yn olaf, clywsom dystiolaeth eto nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ariannu'n ddigonol i ymdrin â'i lu o swyddogaethau, dyletswyddau a chyfrifoldebau. Mae blynyddoedd o danfuddsoddi yn golygu nad oes gan y sefydliad adnoddau digonol, ac mae hyn yn amlwg wedi cyfyngu ar ei allu i arwain adferiad bioamrywiaeth yn effeithiol. Mae rhanddeiliaid wedi galw'n gyson am fwy o gyllid i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli ardaloedd gwarchodedig, cynnig arbenigedd ecolegol, a gorfodi rheoliadau amgylcheddol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu, heb adnoddau digonol ar gyfer y sefydliad, y bydd hyn yn ei gwneud yn anodd i fentrau allweddol fel y Gronfa Rhwydweithiau Natur, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a'r ymrwymiad 30 erbyn 30 lwyddo. Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi'r sefydliad gyda'r cyllid sydd ei angen i ysgogi cynnydd go iawn o ran sicrhau adferiad byd natur.

## Argymhellion

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyllid byd natur.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru asesu a nodi maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer adferiad byd natur yng Nghymru, gan ymgorffori canfyddiadau o adroddiadau fel "Llwybrau i 2030" Cyswllt Amgylchedd Cymru.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiadau 2025 o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn mynd i'r afael â rhwystrau i effeithiolrwydd, gan ganolbwyntio ar welliannau mesuradwy o ran bioamrywiaeth.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chynlluniau ar gyfer rhaglen ariannu Rhwydweithiau Natur ar ôl iddi ddod i ben yn 2025. Os nad yw'r rhaglen yn mynd i barhau, neu os bydd y dyraniad cyllideb yn lleihau, dylai'r

Ysgrifennydd Cabinet ddarparu dadansoddiad o oblygiadau penderfyniadau o'r fath.

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys metrigau clir a fframwaith monitro i olrhain cynnydd tuag at dargedau adfer bioamrywiaeth.

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni ei hymrwymiad, yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, i "archwilio dulliau o ddefnyddio arian preifat i ategu arian cyhoeddus drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy".

**Argymhelliad 30.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wella cydweithio ar draws adrannau i integreiddio adferiad byd natur i feysydd polisi ehangach, er mwyn sicrhau ymateb llywodraeth gyfan i'r argyfwng natur.

# Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **18 Medi 2024** | **Dr Richard Unsworth,**<br>Prifysgol Abertawe<br>**Professor Steve Ormerod,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Dr Victoria Jenkins,**<br>Prifysgol Abertawe<br>**Annie Smith,**<br>RSPB Cymru<br>**Alex Phillips,**<br>WWF Cymru<br>**Chloe Wenman,**<br>Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| **3 Hydref 2024** | **Steve Wilson,**<br>Dŵr Cymru Welsh Water<br>**Rhys Owen,**<br>Tirweddau Cymru<br>**Gwyn Teague,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>**Rebecca Sharp,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>**Ceri Davies,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Ruth Jenkins,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Huwel Manley,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **16 Hydref 2024** | **Huw Irranca-Davies MS - Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Alice Teague,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Claire Bennett,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Reference | Sefydliad |
|---|---|
| **HRLN 01** | Unigolyn 01 |
| **HRLN 02** | Selena Young |
| **HRLN 03** | Steering Group Glyncoch |
| **HRLN 04** | Unigolyn 04 |
| **HRLN 05** | Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru |
| **HRLN 06** | PLANET4B project |
| **HRLN 07** | Tirweddau Cymru |
| **HRLN 08** | Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru |
| **HRLN 09** | ICE Wales Cymru |
| **HRLN 10** | Coed Cadw |
| **HRLN 11** | Cwmpas |
| **HRLN 12** | RTPI Cymru |
| **HRLN 13** | RSPB Cymru |
| **HRLN 14** | BSBI Cymru |
| **HRLN 15** | Labordy Morol Plymouth |
| **HRLN 16** | Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol |
| **HRLN 17** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) |
| **HRLN 18** | Paramaethu Cymru |
| **HRLN 19** | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod |
| **HRLN 20** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| **HRLN 21** | Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru) |
| **HRLN 22** | Cyswllt Amgylchedd Cymru |

| Reference | Sefydliad |
|---|---|
| **HRLN 23** | WWF Cymru |
| **HRLN 24** | Cymdeithas Cadwraeth Forol |
| **HRLN 25** | Chanolfan Amaethecoleg, Dŵr a Gwydnwch (CAWR) Prifysgol Coventry |
| **HRLN 26** | Tir Natur |
| **HRLN 27** | GWCT Cymru |
| **HRLN 28** | Gwarchod Glöynnod Byw Cymru |
| **HRLN 29** | UKELA (UK Environmental Law Association) |
| **HRLN 30** | Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol |
| **HRLN 31** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **HRLN 32** | Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru) |
| **HRLN 33** | Wildlife Trusts Wales |
| **HRLN 34** | Ystâd y Goron |
| **HRLN 35** | Plant Life Cymru |
| **HRLN 36** | Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) |
| **HRLN 37** | Yr Athro Steve Ormerod |
| **HRLN 38** | Afonydd Cymru |
| **HRLN 39** | Dŵr Cymru Welsh Water |
| **HRLN 40** | Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Cyf |
| **HRLN 41** | RenewableUK Cymru |
| **HRLN 42** | Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru |
| **HRLN 43** | Dr Richard Unsworth |
| **HRLN 44** | Dr Victoria Jenkins |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan RSPB Cymru at y Cadeirydd mewn cysylltiad ag ymchwiliad y Pwyllgor ar atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 (Saesneg yn unig) | 22 Hydref 2024 |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 | 14 Tachwedd 2024 |